WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllunio i Ryddhau Cleifion – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 166A2017-18

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Urvisha Perez a Matthew Brushett.

# Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau gwella cadarn ar gyfer rhyddhau cleifion a threfniadau rheoli perfformiad cryf, ac mae'r perfformiad cyffredinol yn gwella, ond mae llei wella hyfforddiant ar gyfer aelodau staff ward, a'u hymwybyddiaeth o bolisïau a gwasanaethau cymunedol.


Adroddiad cryno

Y Cefndir 4

Y Prif Ganfyddiadau 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Rhan 1: Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i wella cynllunio i ryddhau cleifion, wedi'u cefnogi gan bolisïau a llwybrau cynhwysfawr 8

Rhan 2: Mae timau amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth ar gael i gefnogi'r broses ryddhau, ond dim ond o ddydd Llun i ddydd Gwener; mae angen gwella hyfforddiant staff a'u hymwybyddiaeth o bolisïau a gwasanaethau cymunedol 18

Rhan 3: At ei gilydd, mae perfformiad yn gwella; mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau craffu cryf ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i gipio gwybodaeth fwy ystyrlon 29

Atodiadau

Atodiad 1 – Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd. 38

Atodiad 2 – dull archwilio 40

Atodiad 3 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion 42

Atodiad 4 – gweithgareddau a gyflawnir gan y timau cyswllt rhyddhau cleifion 48

# Adroddiad cryno

## Y Cefndir

1 Proses barhaus i ganfod y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallai unigolyn fod eu hangen wrth adael yr ysbyty (neu wrth symud rhwng ysbytai) yw cynllunio i ryddhau. Y nod yw sicrhau bod y gofal cywir ar gael, yn y man cywir ac ar yr amser cywir. Mae proses ryddhau effeithiol ac effeithlon yn ffactor pwysig er mwyn cael llif da o gleifion ac yn allweddol i sicrhau gofal cleifion da a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r GIG. Llif cleifion yw'r llif o gleifion rhwng staff, adrannau a sefydliadau eraill ar hyd llwybr gofal, o gyrraedd yr ysbyty hyd at ryddhau neu drosglwyddo.

2 Mae gwelyau mewn ysbytai o dan bwysau cynyddol, yn enwedig gan fod 1,800 o welyau wedi cael eu colli ar draws Cymru dros y chwe blynedd diwethaf. Gall cynllunio gwael wrth ryddhau cleifion olygu arosiadau hwy diangen, sydd yn eu tro yn amharu ar rannau eraill o'r ysbyty, gan greu amseroedd aros hirach mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu olygu bod yn rhaid canslo derbyniadau cynlluniedig.

3 Bob blwyddyn ledled Cymru bydd cleifion yn cael eu derbyn a'u rhyddhau o'r ysbyty tua 750,000 o weithiau. Mae'r broses ryddhau yn gymharol syml i 80% o'r cleifion sy'n gadael yr ysbyty. Bydd y cleifion hyn yn dychwelyd adref gyda mân anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol, os o gwbl, heb fod angen cynlluniau na darpariaeth gymhleth. I'r 20% o gleifion sy'n weddill, mae cynllunio i ryddhau yn broses fwy cymhleth oherwydd anghenon iechyd ac/neu ofal cymdeithasol parhaus, a allai fod yn anghenion tymor byr neu dymor hir.

4 Yn achos cleifion unigol, y mae llawer ohonynt yn 65 oed neu'n hŷn, gall oedi wrth ryddhau o'r ysbyty arwain at ganlyniadau salach yn sgil colli annibyniaeth, hyder a'r gallu i symud, yn ogystal â risg o gael heintiau yn yr ysbyty, o ail-dderbyn i'r ysbyty neu'r angen am gymorth hirdymor.

5 Er gwaethaf y llu o ganllawiau i gefnogi cynlluniau rhyddhau da,[1 2 3] dangosai gwaith a gyflawnwyd yn 2016 gan Uned Gyflawni (yr Uned Gyflawni) GIG Cymru yn holl ysbytai Cymru fod cyfleoedd i wella'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, i ryddhau capasiti sylweddol i gleifion mewnol ac i wella profiadau a chanlyniadau cleifion. Roedd meysydd penodol i'w gwella yn cynnwys:

- cydweithio’n well â gwasanaethau cymunedol;
- nodi'n gliriach ac yn gynharach y cymhlethdod yn gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty, fel bo modd hwyluso'r broses ryddhau;
- mwy o eglurder ynghylch llwybrau rhyddhau; a
- gwell gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd.

[1] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005) 035, **Hospital Discharge Planning Guidance**, 2005 Saesneg yn unig]

[2] Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, **Passing the Baton**, 2008

[3] Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol (NICE), **Transition between inpatient hospital settings and community or care home settings for adults with social care** needs, 2015

6 Asesodd yr Uned Gyflawni y dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodwyd yn 'Passing the Baton'[2]. Mae'r canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn dangos bod y broses rhyddhau cleifion yn amrywio ac i raddau helaeth yn wael o'i hasesu yn erbyn arferion disgwyliedig. Dangosir y canfyddiadau'n fanylach yn Atodiad 2.

7 Mae llawer o'r materion a amlygwyd gan yr Uned Gyflawni wedi bod yn themâu cyffredin ers blynyddoedd, a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod prosesau cynllunio i ryddhau cleifion yn gwella go iawn. Gan fod y galw am wasanaethau ysbyty ar gynnydd a'r capasiti gwelyau yn parhau i ostwng, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod hi'n bryd adolygu a yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno i gynlluniau rhyddhau cleifion.

8 Archwiliai'r adolygiad hwn a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â chynllunio i ryddhau. Ceir manylion y fethodoleg archwilio yn Atodiad 2. Yn y gwaith, gofynnwyd yn benodol a oedd y Bwrdd Iechyd:

- wedi sefydlu fframwaith cynllunio strategol cadarn er mwyn cynllunio i ryddhau cleifion;
- wedi gwneud trefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynlluniau i ryddhau cleifion; ac
- wedi cymryd camau priodol i reoli cynlluniau rhyddhau cleifion a sicrhau gwelliannau.

9 Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi bod yn cynnal adolygiad o waith addasu tai. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, o ystyried cyfrifoldebau'r naill a'r llall dros reoli a dyrannu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol a ffrydiau ariannu eraill a ddefnyddir i ariannu addasiadau. Ceir cysylltiadau clir rhwng hyn a chynlluniau rhyddhau cleifion o ystyried y ffaith y gall oedi wrth osod neu ariannu addasiadau tai arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn ogystal â hyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi bod yn archwilio ansawdd y llif cyfathrebu a gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd yng nghyswllt rhyddhau cleifion. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiadau, sy'n nodi canfyddiadau'r ddau adolygiad hyn, yn nhymor yr hydref 2017.

# Y Prif Ganfyddiadau

10 Dyma ein casgliad cyffredinol: **Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau gwella cadarn ar gyfer rhyddhau cleifion a threfniadau rheoli perfformiad cryf, ac mae'r perfformiad cyffredinol yn gwella, ond mae lle i wella hyfforddiant ar gyfer aelodau staff ward, a'u hymwybyddiaeth o bolisïau a gwasanaethau cymunedol**. Yn y paragraffau isod, rydym wedi nodi'r prif resymau dros ddod i'r casgliad hwn.

11 **Cynllunio**: Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i wella cynllunio i ryddhau cleifion, wedi'u cefnogi gan bolisïau a llwybrau cynhwysfawr. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- ceir cynlluniau clir ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r cynlluniau hynny wedi'u datblygu â phartneriaid.

- mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhyddhau drafft datblygedig, sydd wedi'i adolygu â phartneriaid, ond nid yw cleifion na gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn y broses o'i adolygu.
- mae'r llwybrau rhyddhau a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn gynhwysfawr ac yn rhan o ddrafft y polisi rhyddhau.

12 **Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion**: Mae timau amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth ar gael i gefnogi'r broses ryddhau, ond dim ond o ddydd Llun i ddydd Gwener; mae angen gwella hyfforddiant staff ac ymwybyddiaeth o bolisïau a gwasanaethau cymunedol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi neilltuo adnoddau i gefnogi rhyddhau. Mae'r rhain o natur amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth ond nid ydynt ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- ceir lle i wella hyfforddiant staff a chodi ymwybyddiaeth o bolisïau, llwybrau a mynediad at wybodaeth am wasanaethau cymunedol.

13 **Monitro ac adrodd**: At ei gilydd, mae perfformiad yn gwella; mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau craffu cryf ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i gipio gwybodaeth fwy ystyrlon. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- ceir llinellau atebolrwydd clir a threfniadau rheolaidd i graffu'n weithredol ar berfformiad cynlluniau rhyddhau, sy'n cynnwys partneriaid.
- at ei gilydd, mae aelodau'r Bwrdd yn gwybod mwy am berfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae camau'n cael eu cymryd i ddatblygu'r ystod o wybodaeth sydd ar gael.
- mae'r perfformiad yn gwella, ond mae'n rhy fuan i ddweud a yw hyn yn gysylltiedig â gwelliannau i'r prosesau ryddhau.

# Argymhellion

### Dangosyn 1: argymhellion

Nodir yn y tabl yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad o gynlluniau rhyddhau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd, lle nodir sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn, wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | **Gwybodaeth am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol:** Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd yn casglu ystod gynhwysfawr o wybodaeth am wasanaethau cymunedol, ond bod lle i atgyfnerthu gwybodaeth staff ward ac i ehangu ystod y data a gesglir. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. ddatblygu system lle gall staff ward gyrchu gwybodaeth gyfredol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol.<br>b. adolygu ystod a mynychder y data a gesglir am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Er enghraifft, cesglir amseroedd aros ar gyfer rhai |

| Argymhellion | |
|---|---|
| | gwasanaethau a data mynychder ar wasanaethau sydd ar gael drwy gyrff eraill y GIG ac opsiynau tai. |
| A2 | **Adolygu polisïau:** Gwelsom fod polisïau a ddiwygiwyd yn ddiweddar ar ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal a dewis llety wedi'u cynnwys yn rhan o gynlluniau gweithredu partneriaeth, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth fod cleifion a gofalwyr wedi'u cynnwys yn y broses. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio cynnwys cleifion a gofalwyr y tro nesaf y bydd hi'n bryd diwygio'r polisïau. |
| A3 | **Ymwybyddiaeth staff o bolisïau a llwybrau:** Gwelsom nad oedd staff ward yn ymwybodol o bolisïau a llwybrau rhyddhau. Er bod y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu ar adeg yr archwiliad, dylai'r staff fod wedi bod yn ymwybodol o fersiynau blaenorol. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth cyn gynted ag y bydd y polisi drafft ar ryddhau cleifion wedi'i gwblhau'n derfynol er mwyn sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion yn deall sut i'w ddefnyddio. |
| A4 | **Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion:** Gwelsom fod yr hyfforddiant i'r staff ar gynllunio i ryddhau cleifion yn anghyson ac nad yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro'r graddau y cydymffurfir â hyfforddiant. Mae cynlluniau i wella hyfforddiant wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gwella rhyddhau cleifion, ond dywedodd staff wrthym fod diffyg capasiti ar y wardiau yn atal staff rhag mynychu hyfforddiant. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. ddatblygu cwrs e-ddysgu ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion a allai fod yn fwy hygyrch i staff ward.<br>b. sicrhau bod presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi yn cael ei nodi ar gofnod electronig y staff, fydd yn helpu i wella'r trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth. |

# Adroddiad manwl

## Rhan 1: Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i wella cynllunio i ryddhau cleifion, wedi'u cefnogi gan bolisïau a llwybrau cynhwysfawr

### Ceir cynlluniau clir ar gyfer gwella cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r cynlluniau hynny wedi'u datblygu â phartneriaid

14 Ym mis Hydref 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at holl Gadeiryddion y GIG er mwyn cadarnhau ei fod yn disgwyl i gynlluniau gwella gofal heb ei drefnu gynnwys cynlluniau i wella prosesau rhyddhau cleifion. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru[4] hefyd yn cyfleu'n glir y dylai sefydliadau nodi sut mae eu cynlluniau yn cefnogi ac yn gwella llif cleifion. Dylid canolbwyntio ar leihau'r nifer o bobl oedrannus a bregus sy'n cael eu derbyn, drwy asesu ac ymyrryd mewn modd rhagweithiol, a rhyddhau cleifion mor fuan ag sy'n briodol o safbwynt clinigol, heb unrhyw oedi diangen.

15 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn asesu'r graddau y mae cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd strategol ehangach i wella llif cleifion. Mae gan y Bwrdd Iechyd dri phrif gynllun ar gyfer gwella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion, sef: Y Cynllun Adref yn Gyntaf, y Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu a Chynllun Gaeaf Integredig Caerdydd a'r Fro. Ceir cysylltiadau rhwng y tri chynllun ond mae eu ffocws yn amrywio.

- y Cynllun Adref yn Gyntaf yw cynllun gweithredu cyntaf y rhanbarth ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG). Fe'i datblygwyd gan Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro[5] ar ôl i nifer yr achosion o OwDG gyrraedd penllanw ym mis Chwefror 2015. Mae'r cynllun hwn yn rhoi trosolwg strategol o'r gwaith sydd ar y gweill i leihau'r achosion o OwDG ac i wella'r gofal cyffredinol i bobl sydd angen gofal a chymorth.
- nod y Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu yw gwella prosesau cleifion mewnol a threfniadau rhyddhau a throsglwyddo mewn ysbytai.
- yng Nghynllun Gaeaf Integredig Caerdydd a'r Fro nodir camau i wella'r trefniadau rhyddhau er mwyn cael rheolaeth well ar bwysau'r gaeaf. Cytunodd y Bwrdd Iechyd, awdurdodau lleol Caerdydd a'r Fro, sefydliadau'r trydydd sector[6] ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ar y cyd ar y cynllun.

16 Mae'r Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu yn seiliedig ar argymhellion o amryw o adolygiadau[7], gan gynnwys archwiliad yr Uned Gyflawni o'r broses ryddhau, ac arfer da a

[4] Llywodraeth Cymru, **Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20,** 2016

[5] Mae'r bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd, a'r Bwrdd Iechyd, ac o'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae'r bartneriaeth yn rhan o strwythur llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

[6] Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) a Chyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC).

[7] Yn ôl y ddogfen, mae'r rhaglen 'yn seiliedig ar argymhellion rhaglen Gofal Heb ei Drefnu Cenedlaethol Cymru, canllawiau'r GIG/arfer gorau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a chanlyniadau Archwiliadau Diwrnod Gofal ac Archwiliad Gofal yr Uned Gyflawni ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r

nodwyd gan eraill. Sefydlwyd y rhaglen hon yn nhymor yr hydref 2016, ac nid oedd ond megis dechrau ar adeg ein harchwiliad. Mae Cam 1 o'r rhaglen yn canolbwyntio ar welliannau tymor byr i dymor canolig (12-18 mis) i broesau a threfniadau rhyddhau cleifion mewnol. Mae mentrau Cam 1 wedi'u rhannu o dan y themâu 'cadw pobl yn iach' ac 'adref yn gyntaf'.

17 Mae 'cadw pobl yn iach' yn canolbwyntio ar sefydlogi a lleihau'r galw, er enghraifft drwy addysgu cleifion ynghylch sut i reoli eu gofal eu hunain yn well, cynyddu'r gefnogaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau er mwyn lleihau atgyfeiriadau i adrannau damweiniau ac achosion brys, a lleihau derbyniadau o gartrefi gofal hyd yr eithaf. Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau neu driniaethau ysbyty traddodiadol yn y gymuned, er enghraifft, gwrthfiotigau mewnwythiennol.

18 Mae 'adref yn gyntaf' yn canolbwyntio ar wella llif cleifion ar ôl i glaf ddod i mewn i'r system ysbytai. Er enghraifft, drwy osgoi derbyn cleifion i'r adran damweiniau ac achosion brys, drwy wella amseroedd aros yn yr adran damweiniau ac achosion brys, lleihau'r amser y mae'n rhaid aros am wely ar ôl penderfynu derbyn claf, a sicrhau bod cleifion yn aros yn yr ysbyty am gyfnod priodol. Y mae hefyd yn disgrifio'r camau manwl y mae angen eu cymryd er mwyn gwella'r rheolaeth ar ryddhau a throsglwyddo gofal drwy ail-lansio'r gwasanaeth cymorth rhyddhau ac adolygu'r llwybrau sydd ar gael yn y gymuned[8] i gefnogi cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

19 Nod ail gam y rhaglen yw ceisio cynnal system iechyd a gofal cymdeithasol gydgysylltiedig a chynaliadwy. Mae llawer o'r trafodaethau hyn eisoes yn mynd rhagddynt drwy bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r fro, ac wedi'u nodi yn y Cynllun Adref yn Gyntaf.


20 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa ffactorau sy'n cyfrannu at oedi cyn rhyddhau neu drosglwyddo gofal, er mwyn canfod i ba raddau y mae eu cynlluniau'n anelu i ymdrin â'r ffactorau sy'n achosi'r mwyaf o broblemau. Yn Nangosyn 2 gwelir bod prinder o ofalwyr cartref, prinder o welyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia, a phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol yn ffactorau o bwys sydd yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal.

Fro. Mae'r rhaglen 'yn seiliedig ar dystiolaeth sylweddol ynghylch yr hyn sy'n llwyddo a'r difrod a achosir yn sgil llif cleifion gwael.

[8] Mae'r llwybr cymunedol yn cynnwys gwasanaethau fel timau adnoddau cymunedol, timau ymateb acíwt, timau gofal lliniarol a chyfleusterau gofal canolraddol cam i fyny a cham i lawr.

Dangosyn 2: ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal ar draws sefydliadau'r GIG

Mae'r siart yn dangos y ffactorau yr ystyrir eu bod yn cyfrannu at oedi wrth ryddhau o'r ysbyty neu drosglwyddo gofal.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017[9]

21 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod y problemau canlynol yn achosi oedi bob amser, neu'n aml, wrth ryddhau cleifion:

- prinder gwelyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia;
- yr amser a gymerir i gyflawni addasiadau tai graddfa fawr;
- prinder gofalwyr cartref; a
- phrinder gwelyau cyffredinol mewn cartrefi nyrsio.

22 Yn ogystal â hyn, cyfeiriodd y Bwrdd Iechyd at faterion teuluol fel anghydfod ynghylch y dewis o gartref neu faterion ariannol, neu'r ffaith nad yw aelodau o'r teulu (neu'r staff) ar gael i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio i ryddhau. Cyfeiriwyd at gapasiti'r gwasanaeth cymunedol, fel dyraniad gweithwyr cymdeithasol, darpariaeth y gwasanaeth nyrsio cymunedol, diffyg llety amgen addas, a'r broses asesu integredig fel ffactorau a oedd yn achosi oedi.

23 Mae camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Adref yn Gyntaf y rhanbarth yn ceisio ymdrin â'r materion a amlygwyd gan y Bwrdd Iechyd. Fel y crybwyllwyd uchod, dyma yw cynllun gweithredu'r rhanbarth ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal. Nod y cynllun yw datblygu gwasanaethau sy'n cyflymu cynnydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal acíwt

[9] Cawsom ymatebion gan y saith bwrdd iechyd a chan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn trefnu gwasanaethau cynllunio i ryddhau cleifion ar sail ardal leol neu ddaearyddiaeth, felly mae gennym fwy nag un ffurflen ddata ar gyfer y ddau fwrdd iechyd hyn.

neu hirdymor, a lleihau nifer y bobl sydd angen y gwasanaethau hyn. Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun Adref yn Gyntaf yn canolbwyntio ar gyfnodau allweddol yn nhaith gofal y claf lle mae angen cymorth ychwanegol. Y nod ym mhob cyfnod yw dychwelyd cleifion i'w cartref, neu mor agos ag sy'n bosibl i'w cartref. Dyma'r camau:

- y cyswllt cyntaf – pan fydd pobl yn cysylltu ag angen posibl;
- cymorth parhaus – pan fydd gan bobl gyfres o anghenion sydd o natur barhaus ond cymharol sefydlog;
- ymateb argyfwng – pan fydd pobl yn wynebu argyfwng, neu pan fydd eu hanghenion yn dwysau am gyfnod byr; ac
- asesiad cynhwysfawr – pan fydd pobl yn profi newid sylweddol a pharhaol i'w hiechyd a'u lles.

24 Yn 2016, cynhaliom adolygiad yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg er mwyn canfod a oedd partneriaid yn cyflwyno gwelliannau cynaliadwy o safbwynt OwDG. Daethom i'r casgliad bod partneriaid yn cydweithio'n dda i reoli achosion o OwDG gan wireddu eu cynlluniau ar gyfer model systemau cyfan ar yr un pryd[10].

25 Ar hyd y blynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ffrydiau ariannu sy'n anelu i feithrin mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau, a'r ddiweddaraf o'r rhain yw'r Gronfa Gofal Integredig (CGI). Cronfa gyfun a gyflwynwyd yn 2014-15 yw'r CGI, ac o ran llif cleifion, mae'n ariannu cynlluniau i atal derbyniadau i'r ysbyty, i gefnogi annibyniaeth pobl hŷn ac i leihau achosion o OwDG. Cafodd y gronfa ei rhyddhau fel cronfa untro yn unig i ddechrau, ond yn 2015-16, fe'i newidiwyd yn gronfa gylchol. Dywedodd cyfarwyddwyr y Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol yng Nghaerdydd a'r Fro wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, mewn ysgrifen, fod y gronfa yn sicr am y tair blynedd nesaf. Mae'r cadarnhad hwn wedi rhoi hyder i bartneriaid gynllunio am y tymor hir, er enghraifft, drwy recriwtio staff parhaol ar gyfer rhai o'r swyddi a ariennir drwy'r CGI, fydd yn eu tro'n sefydlogi gwasanaethau. Drwy strwythur llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, bydd partneriaid yn cytuno ar fentrau a ariennir gan y CGI ac yn eu gwerthuso'n flynyddol.

26 Ar gyfer y tymor hir, mae gan y rhanbarth strategaeth o'r enw Cynghrair Menter Iechyd ar gyfer Trawsnewid Rhanbarthol (HEART). Dyma'r glasbrint cyffredinol ar gyfer newid rhanbarthol dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn cynnwys cynlluniau i gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gan gynnwys mentrau sy'n gyfeillgar â dementia a modelau gwasanaeth sy'n seiliedig ar ardaloedd lleol. Mae peilot yn cael ei gynnal o rai o'r mentrau hyn o bryd, a diweddariadau yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd at wefan y Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig.

[10] Mae dull systemau cyfan yn golygu rhoi'r prif sylw i'r claf, drwy ystyried natur y gofal y mae arno ei angen yn hytrach na pha sefydliad fydd yn ei gyflenwi neu'n talu amdano. Drwy weithio fel hyn, bydd llai o achosion o ail-wneud gwaith, a chostau'n cael eu harbed. Bydd hynny yn y pen draw yn golygu bod cleifion yn derbyn y gofal cywir ar yr amser cywir gan yr unigolyn cywir.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhyddhau drafft datblygedig, sydd wedi'i adolygu â phartneriaid, ond nid yw cleifion na gofalwyr wedi cael eu cynnwys yn broses o'i adolygu

27 Dylid ystyried y broses ryddhau yn rhan o broses ofal ehangach, yn hytrach na'i hystyried fel digwyddiad ynysig ar ddiwedd arhosiad y claf. Dylai sefydliadau'r GIG gael polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau ac/neu drosglwyddo gofal, ac yn ddelfrydol dylid datblygu'r rheiny mewn cydweithrediad â phartneriaid statudol. Yn ogystal â hyn, dylai sefydliadau'r GIG gael polisi i gynnig dewis i'r cleifion hynny y mae angen iddynt symud ymlaen i gartref gofal yn rhan o'u trefniadau gofal parhaus, er y gallai'r dewis fod yn brin mewn sawl ardal.

28 Adolygwyd polisi'r sefydliad ar ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal drwy ddefnyddio matrics aeddfedrwydd[11]. Mae'r matrics aeddfedrwydd yn asesu 17 o elfennau'r polisi, gan ddyfarnu sgôr i bob elfen o un (llai datblygedig) i dri (datblygedig iawn). Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd ar ganol adolygu ei bolisi rhyddhau. Buom yn adolygu fersiwn drafft, dyddiedig Chwefror 2017. Yn Nangosyn 3 gwelir y sgoriau a ddyfarnwyd i ddrafft y Bwrdd Iechyd o'i bolisi rhyddhau yn erbyn y matrics aeddfedrwydd.

Dangosyn 3: perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn rhestr wirio arfer da y polisi rhyddhau cleifion

Dengys y tabl fod polisi rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd wedi'i ddatblygu'n dda ar y cyfan, gan sgorio'n uchel yn erbyn y rhan fwyaf o'r elfennau a aseswyd gan archwilwyr.

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Polisi rhyddhau aml-asiantaeth | 2 | Mae'r Cynllun Adref yn Gyntaf yn cynnwys gofyniad i adolygu'r polisi, ac mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn monitro'r broses o'i weithredu. Fodd bynnag, ni chyfeirir at yr angen i gynnwys y claf/gofalwr yn natblygiad y polisi. |
| Polisi wedi'i adolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf | 3 | Roedd y polisi'n cael ei adolygu ar adeg ein gwaith maes. Adolygwyd fersiwn ddrafft gennym, dyddiedig Chwefror 2017. |
| Cynnwys cleifion/gofalwyr | 3 | Mae'r polisi yn rhoi pwyslais ar gynnwys cleifion a gofalwyr drwy gydol y broses ryddhau. Er enghraifft, cyfeirir at roi gwybodaeth a chyngor yn gynnar, ac at bwysigrwydd cyfathrebu er mwyn osgoi camddealltwriaeth. |
| Cyfathrebu | 3 | Cyfeirir yn aml at eiriolwyr drwy gydol y polisi ac mae'r polisi dewis llety yn pwysleisio pa mor bwysig yw cyfathrebu â'r unigolyn, y teulu a gofalwyr. |

[11] Mae ein matrics aeddfedrwydd yn seiliedig ar yr Offeryn Archwilio Hunanasesu ar gyfer Cynllunio i Ryddhau'n Effeithiol, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn 2008.

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Gwybodaeth | 3 | Mae'r polisi'n manylu ar gamau i sicrhau bod cleifion y derbyn gwybodaeth glir a manwl gywir am brosesau rhyddhau. Er enghraifft: bod y claf yn derbyn taflen yn fuan sy'n disgrifio'r broses o gynllunio i ryddhau, cwrdd â chlaf/perthynas neu ofalwr i esbonio'r cyfyngiadau ar ddewis a bod y Swyddog Cymorth Rhyddhau Cleifion yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd. |
| Grwpiau sy'n agored i niwed ee cleifion sy'n ddigartref | 3 | Mae'r polisi'n cyfeirio at grwpiau sy'n agored i niwed, fel pobl ag anableddau dysgu, pobl ddigartref, pobl sy'n byw gyda dementia a phobl eiddil ac oedrannus. Ceir cysylltiadau hefyd â gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA). |
| Cynllunio'n fuan i ryddhau yn achos derbyniad dewisol | 3 | Yn ôl y polisi, 'dylid pennu amcan o'r dyddiad rhyddhau ar gyfer derbyniadau wedi'u trefnu yn y clinig cyn derbyn y claf i'r ysbyty'. |
| Pennir amcan o'r dyddiad rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf. | 3 | Yn nodi'n glir y bydd amcan o ddyddiad rhyddhau wedi'i bennu ar gyfer pob claf cyn pen 24 awr ar ôl ei dderbyn i'r ysbyty. |
| Osgoi Aildderbyn | 1 | Nid yw'r polisi hwn yn cyfeirio o gwbl at yr angen i osgoi derbyn cleifion. |
| Cytundebau a Phrotocolau Lleol | 3 | Mae'r polisi dewis llety rhanbarthol yn rhan o'r polisi rhyddhau cleifion. Mae'r polisi hefyd yn disgrifio'r broses sydd i'w dilyn pan fydd angen cyfarpar ar gleifion. |
| Asesu | 3 | Mae'r polisi'n cyfeirio at asesu integredig, asesu gofal nyrsio a ariennir gan y GIG ac asesu gofal iechyd parhaus yn rhan o'r llwybr anghenion cymhleth. |
| Rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys | 1 | Nid yw'n cynnwys rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. |
| Rhyddhau i gartref gofal | 3 | Yn nodi'n glir na ddylid derbyn cleifion yn syth i gartref gofal o ofal acíwt yn yr ysbyty. |
| Cysylltiadau â'r polisi dewis llety | 3 | Mae'r polisi'n cyfeirio at y polisi dewis llety, sydd wedi'i atodi i'r polisi rhyddhau. |
| Opsiynau Gofal | 2 | Mae'r polisi'n cyfeirio at gartrefi dros dro lle nad yw'r dewis cyntaf ar gael. |
| Prosesau uwchgyfeirio | 3 | Nodir yn y polisi fod y Pennaeth Gofal Integredig yn cefnogi'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig (GRhI) mewn achosion rhyddhau cymhleth. Ac mae'n rhaid i benderfynwr meddygol ar lefel uwch fod yn bresennol ar holl rawdiau'r bwrdd. |
| Protocolau Rhyddhau Hygyrch | 3 | Mae'r polisi'n cynnwys atodiadau sy'n dangos gwahanol siartiau llif ar gyfer y llwybr fferyllol a chleifion digartref, a siart lif glir ar gyfer rhyddhau sy'n dangos llwybrau syml a chymhleth, a llwybrau gyda chefnogaeth. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bolisi rhyddhau cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, 2017

29 O'r 17 o feini prawf y buom yn profi yn eu herbyn, enillodd polisi Caerdydd a'r Fro sgôr lefel 3 am 13 o'r 17 o elfennau, gan olygu bod gan y Bwrdd Iechyd bolisi rhyddhau cleifion sydd wedi'i ddatblygu'n dda ar y cyfan. Gwelsom fod rhai agweddau ar bolisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd heb eu datblygu i'r un graddau. Er bod y polisi'n pwysleisio bod angen rhyddhau cleifion yn brydlon, ni chyfeirir yn benodol at y risg o orfod aildderbyn cleifion. Nid yw'r polisi ychwaith yn cynnwys gwybodaeth am ryddhau cleifion o'r adran damweiniau ac achosion brys.

30 Mae polisi drafft y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar arfer da ac yn ymgorffori elfennau perthnasol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Anelir i'r polisi diwygiedig gael ei ddefnyddio fel dogfen gyfeirio gyfun ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion. Mae'r polisi'n cynnwys canllawiau perthnasol, er enghraifft, llwybrau rhyddhau, rhestrau gwirio rhyddhau enghreifftiol a gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer defnyddio'r orsaf waith glinigol[12]. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys mesurau perfformiad i fonitro cydymffurfiaeth â'r polisi.

31 Mae'r polisi dewis llety rhanbarthol, a adolygwyd ym mis Hydref 2016, yn rhan o ddrafft y polisi rhyddhau cleifion. Mae'r naill bolisi a'r llall yn cyfleu'n glir mai'r nod yw rhyddhau cleifion i'w man preswylio arferol. Nodir yn y polisi dewis llety na fydd cleifion yn cael eu rhyddhau o ysbyty acíwt i leoliad parhaol mewn cartref gofal.

32 Mae adolygu'r ddau bolisi yn un o gamau gweithredu'r Cynllun Adref yn Gyntaf, ac mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn goruchwylio hynny. Ymgynghorwyd â phartneriaid ar y polisïau diwygiedig, ond ni cheir unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cleifion a gofalwyr wedi cael eu cynnwys.

33 Dylai polisïau a gweithdrefnau gynnwys diffiniad clir o'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rhyddhau cleifion mewn modd diogel ac amserol. Drwy hynny bydd modd gwneud defnydd effeithiol o sgiliau a gwybodaeth, a bydd aelodau unigol o staff yn cael eu dwyn i gyfrif am eu rôl yn y broses. Yn y polisi rhyddhau dylid hefyd bennu'r safonau ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am ryddhau cleifion.

34 Yn y Bwrdd Iechyd, gwelsom fod adran o ddrafft y polisi rhyddhau yn rhoi amlinelliad clir o rolau a chyfrifoldebau proffesiynau a thimau sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn cynnwys prif weithredwr y Bwrdd Iechyd, staff clinigol, staff cymorth rhyddhau, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol iechyd cysylltiol (er enghraifft, staff therapïau).

[12] System gweinyddu cleifion yw'r orsaf waith glinigol. O fewn y Bwrdd Iechyd, fe'i defnyddir ar y cyd â'r cofnod cleifion, sef system bapur.

## Mae'r llwybrau rhyddhau a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn gynhwysfawr ac yn rhan o ddrafft y polisi rhyddhau

35 Dylid ystyried cynllunio i ryddhau o'r ysbyty yn broses barhaus a gynhelir bob dydd o'r wythnos. Er na fydd yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau'r claf ar gael bob amser, dylai'r gwaith cyfathrebu, cynllunio a chydgysylltu barhau. Gall llwybrau rhyddhau diffiniedig sy'n nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau diffiniedig o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, fod o gymorth i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel a phrydlon.

36 Yn rhan o'n gwaith, buom yn edrych ar y prif lwybrau rhyddhau sydd ar waith. Aseswyd yr eglurder ynghylch dibenion y llwybrau a'r defnydd ohonynt ar draws sefydliad, a oedd llwybrau wedi'u datblygu gyda phartneriaid o'r awdurdodau lleol, ac a oedd algorithmau, dogfennau safonedig a mesurau ansawdd i gefnogi'r llwybrau.

37 Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio tri llwybr rhyddhau cyffredinol: syml, gyda chefnogaeth a chymhleth, yn ogystal â nifer o lwybrau ar gyfer cyflyrau penodol sy'n cynnwys rhan o'r broses ryddhau. Mae'r llwybr gyda chefnogaeth yn ychwanegiad diweddar, sy'n anelu i wahaniaethu rhwng cleifion y mae angen cymorth byrdymor arnynt er mwyn ddychwelyd i fod mor annibynnol ag yr oeddent cyn cael eu derbyn, a chleifion ac arnynt angen gofal hirdymor. Mae gorsaf waith glinigol y Bwrdd Iechyd wedi cael ei diweddaru i gynnwys y llwybr ychwanegol. Cyflwynir y tri llwybr mewn diagram un llif yn nrafft y polisi rhyddhau, sy'n ganllaw manwl y gellir cyfeirio ato.

38 Buom yn adolygu'r tri llwybr cyffredinol yn erbyn y meini prawf a nodir yn Nangosyn 4, sy'n dangos bod gan y Bwrdd Iechyd lwybrau rhyddhau clir ar y cyfan, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn tywys y claf yn ôl i'w fan preswylio blaenorol.

### Dangosyn 4: elfennau a gyflwynir yn llwybrau rhyddhau cyffredinol y Bwrdd Iechyd

Mae'r tabl yn dangos bod llwybrau rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn gynhwysfawr ar y cyfan o'u hasesu yn erbyn ystod o feini prawf.

| Elfennau | Llwybr | | |
|---|---|---|---|
| | Syml | Gyda chefnogaeth | Cymhleth |
| Diagram llif/coeden benderfyniadau er mwyn nodi cleifion priodol | Ydy | Ydy | Ydy |
| Cyrchfan rhyddhau penodol ee man preswylio arferol | Ydy | Ydy | Ydy |
| Pwrpas clir | Ydy | Ydy | Ydy |
| Llwybr cyffredinol neu lwybr ar gyfer cyflwr penodol | Cyffredinol | Cyffredinol | Cyffredinol |
| Logisteg trafnidiaeth neu drosglwyddo wedi'u cydnabod yn glir | Ydy | Ydy | Ydy |
| Yn berthnasol ar draws yr holl safleoedd ysbyty | Ydy | Ydy | Ydy |
| Yn berthnasol bob awr o'r dydd, bob dydd o'r flwyddyn | Aneglur | Aneglur | Aneglur |

| Elfennau | Llwybr | | |
|---|---|---|---|
| | Syml | Gyda chefnogaeth | Cymhleth |
| Wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid y GIG, ee BILlau cyfagos, WAST neu Felindre | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy |
| Wedi'i ddatblygu gydag awdurdodau lleol sy'n bartneriaid | Ydy | Ydy | Ydy |
| Wedi'i gefnogi gan ddogfennau rhyddhau cyffredinol | Ydy | Ydy | Ydy |
| Wedi'i gefnogi gan ddogfennau asesu cyffredinol | Ydy | Ydy | Ydy |
| Mae'r prosesau atgyfeirio yn glir | Ydy | Nac ydy | Ydy |
| Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth asesu anghenion | Ydy | Nac ydy | Ydy |
| Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth ddarparu gwasanaethau | Ydy | Nac ydy | Ydy |
| Safonau cytunedig ar gyfer ansawdd a diogelwch | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy |
| Safonau ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff clinigol/gofal yn y gymuned ee, llythyrau rhyddhau | Ydy | Ydy | Ydy |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o lwybrau rhyddhau cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, 2017

39 Mae'r llwybr rhyddhau cymhleth yn cyfeirio at y polisi rhyddhau cyflym, ar gyfer cleifion sy'n dymuno marw gartref, a chamau'r polisi dewis llety. Er bod y llwybr hwn yn arwain at leoliad mewn cartref gofal, fel y nodwyd eisoes, mae'r polisi rhyddhau drafft yn cyfleu'n glir mai dewis olaf yw'r lleoliad gofal/cartref nyrsio. Mae'r diagram llif ar gyfer llwybrau hefyd yn cyfeirio at drefniadau rhyddhau fel trafnidiaeth, meddyginiaethau i fynd adref a gwybodaeth am drosglwyddo gofal, a hefyd yn gosod terfynau amser lefel uchel ar gyfer prosesau.

40 Mae'r llwybrau rhyddhau yn rhan o ddrafft y polisi rhyddhau, ac adolygiad y polisi hwnnw yn rhan o Gynllun Adref yn Gyntaf y bartneriaeth. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y llwybrau wedi'u datblygu gydag Ymddiriedolaeth Gofal Canser Felindre neu fyrddau iechyd cyfagos. Nid yw'n glir, o'r polisi rhyddhau, a yw'r llwybrau rhyddhau yn berthnasol bob awr o'r dydd a phob dydd o'r flwyddyn, ond gwyddom fod rhai achosion rhyddhau yn ddibynnol ar oriau gweithredu'r gwasanaethau cymorth rhyddhau, er enghraifft timau adnoddau cymunedol.

41 Y dull confensiynol o ryddhau cleifion, yn enwedig henoed bregus, yw cynnal cyfres o asesiadau ar y ward er mwyn canfod pa fath o gymorth y gallai fod arnynt ei angen gartref. Cwblheir yr asesiadau hyn fel arfer ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol' iach i'w ryddhau. Cyn gynted ag y bydd asesiadau wedi'u cwblhau, bydd cleifion wedyn yn cael eu rhyddhau pan fydd yr holl wasanaethau cymorth priodol neu'r holl adnoddau eraill wedi'u trefnu, a allai gymryd cryn dipyn o amser. Gelwir hyn yn llwybr neu'n fodel 'asesu i ryddhau'.

42 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog llwybr neu fodel 'rhyddhau i asesu'[13] [14]. Mae hynny'n golygu rhyddhau cleifion i fynd adref pan fônt yn 'feddygol' iach i'w rhyddhau, a phan nad oes angen gwely mewn ysbyty arnynt mwyach. Ar y diwrnod rhyddhau, bydd aelodau o'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedyn yn cynnal asesiad gartref o anghenion cymorth cleifion. Bydd hyn yn galluogi cleifion i dderbyn y lefel gywir o ofal a chymorth gartref mewn amser real, ac yn cael gwared â'r angen i gadw cleifion mewn gwely yn yr ysbyty tra bônt yn aros i asesiadau gael eu cynnal ac i wasanaethau gael eu trefnu.

43 Canfu'r Uned Gyflawni mai prin oedd y defnydd o lwybrau 'rhyddhau i asesu', ac argymhellodd y dylai sefydliadau'r GIG eu gweithredu. Gwelsom fod hanner (4 o 8) sefydliadau'r GIG wedi gweithredu model 'rhyddhau i asesu' er nad oedd y model ond wedi cael ei weithredu ar safleoedd ysbyty penodol mewn rhai sefydliadau. Yn ddiweddar ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno llwybr preswyl 'rhyddhau i asesu' lle gall cleifion wella mewn man arall yn lle gwely mewn ysbyty acíwt. Drwy ddefnyddio arian y CGI, cytunodd y bartneriaeth i brynu gwelyau (wyth gwely yng Nghaerdydd a chwe gwely ym Mro Morgannwg) mewn dau gartref preswyl i'w defnyddio fel cyfleuster gofal canolraddol.

[13] Llywodraeth Cymru**, Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned – Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi**, 2010

[14] Llywodraeth Cymru, **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**, 2011

# Rhan 2: mae timau amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth ar gael i gefnogi'r broses ryddhau, ond dim ond o ddydd Llun i ddydd Gwener; mae angen gwella hyfforddiant staff a'u hymwybyddiaeth o bolisïau a gwasanaethau cymunedol

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi neilltuo adnoddau amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth i gefnogi rhyddhau, ond nid ydynt ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener

### Mae tîm cyswllt rhyddhau y Bwrdd Iechyd yn dîm amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth; ond yn debyg i'r gwasanaethau mewn byrddau iechyd eraill, nid yw ond yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener

44 Tîm cyswllt rhyddhau yw tîm arbenigol sy'n anelu i gefnogi proses trosglwyddo gofal ddiogel a di-dor ar gyfer cleifion sydd yn symud o'r ysbyty i ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned. Gall y timau hyn fod yn ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth a gwybodaeth i staff ward, a chynnig cymorth i hwyluso achosion rhyddhau cymhleth.


45 Gofynnwyd am wybodaeth gan bob sefydliad o fewn y GIG ynghylch a ydynt yn gweithredu gwasanaethau cyswllt ar gyfer rhyddhau, ac ynghylch cwmpas y gwasanaethau hynny. Ledled Cymru, gwelsom fod holl sefydliadau'r GIG, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn cynnal un neu fwy o dimau cyswllt ar gyfer rhyddhau. Mae'r holl dimau'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa, a'r amser gorffen hwyraf yw 5.30pm. Dywedodd saith o'r 15 o dimau eu bod yn rheoli achoson rhyddhau syml a chymhleth.

46 O fewn y Bwrdd Iechyd, gwelsom ei fod yn gweithredu Gwasanaeth Rhyddhau Integredig (GRhI), sy'n cynnwys yr holl safleoedd ysbyty. Mae'r Pennaeth Iechyd Integredig yn goruchwylio'r GRhI, a rheolwyr iechyd ac awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ei reoli'n weithredol. Mae'r GRhI yn rheoli achosion rhyddhau o'r ysbyty syml a chymhleth.

47 Fel arfer, bydd timau cyswllt rhyddhau yn cynnwys staff nyrsio ond, er mwyn cael rheolaeth well ar achosion rhyddhau cymhleth, dylai'r timau fod yn amlddisgyblaethol. Yn Nangosyn 5 gwelir y gwahanol broffesiynau o fewn timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. Dengys y data fod llai na hanner y timau yn amlddisgyblaethol a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u harwain gan nyrsys. Mae timau cyswllt rhyddhau yn amrywio o ran maint rhwng dau aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a 29 aelod o staff CALl, gyda'r timau mwy yn gweithio ar draws amryw o safleoedd ysbyty. Y cyfartaledd oedd saith aelod staff CALl.

Dangosyn 5: gwahanol aelodau staff proffesiynol a ddyrennir i Dimau Cyswllt Rhyddhau ar 30 Medi 2016

Mae'r siart yn dangos bod timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru wedi'u harwain yn bennaf gan nyrsys, ac mai ychydig iawn o dimau amlddisgyblaethol a geir.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am Dimau Cyswllt Rhyddhau, 2017.[15]

48 O fewn y bwrdd Iechyd, mae'r GRhI yn dîm amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth ac ynddo staff o'r Bwrdd Iechyd, o'r ddau awdurdod lleol ac o'r trydydd sector. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion tai ac, yn fwy diweddar, swyddogion cefnogi rhyddhau. Mae swyddogion cymorth rhyddhau yn rhan o'r GRhI, ond fe'u cyflogir gan Age Connect. Maent yn helpu cleifion hŷn a'u teuluoedd i gynllunio ar gyfer rhyddhau, er enghraifft drwy roi cyngor am wasanaethau cymunedol sydd ar gael yn ogystal â chefnogaeth emosiynol. Roedd staff y buom ni'n siarad â hwy yn teimlo bod y gwasanaeth hwn yn amhrisiadwy gan fod swyddogion cymorth rhyddhau yn gallu cynnig cyngor gwrthrychol a di-duedd, ac yn gallu herio staff clinigol ar ran y claf a'r teulu.

49 Cyfanswm cost 13 o'r 15 o dimau cyswllt rhyddhau oedd £2.9 miliwn rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, ac roedd costau'r timau unigol yn amrywio rhwng £43,000 a £692,000. £244,000 oedd y gost gyfartalog fesul tîm cyswllt ryddhau. O fewn y Bwrdd Iechyd, roedd y tîm cyswllt rhyddhau yn costio £521,000.

50 Oherwydd bylchau yn yr wybodaeth am gostau staffio, gweithgarwch a gwasanaethau, mae'n anodd sefydlu gwerth cymharol am arian y timau cyswllt rhyddhau oddi mewn i

[15] Mae'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn gweithredu timau cyswllt rhyddhau. Cawsom 15 o ffurflenni data oddi wrth dimau cyswllt rhyddhau, er nad oedd yr holl ffurflenni data yn gyflawn. Caiff y rhan fwyaf o dimau rhyddhau cleifion eu rheoli fel gwasanaethau ar wahân, ond mewn rhai byrddau iechyd rheolir y timau fel un gwasanaeth integredig.

sefydliadau'r GIG/yng ngwahanol sefydliadau'r GIG. Dim ond pedwar o'r 15 o dimau cyswllt rhyddhau ar draws Cymru a ddarparodd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan y pedwar tîm hwn, buom yn cymharu nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau â nifer yr aelodau staff CALl. Roedd nifer yr achosion o ryddhau fesul aelod staff CALl yn amrywio rhwng 50 a 250; ar gyfartaledd, roedd 117 o gleifion yn cael eu rhyddhau fesul aelod staff CALl. Sylwch nad oes gennym wybodaeth am nifer yr achosion o ryddhau y mae tîm rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn eu rheoli, felly ni allwn wneud unrhyw sylwadau ynghylch nifer yr achosion o ryddhau a reolir gan y tîm.

51 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwerthuso'r GRhI er ei weithredu yn 2013. Fodd bynnag, cyflwynwyd newidiadau i'r gwasanaeth yn ddiweddar, sy'n rhan o gynlluniau ehangach i wella llif cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda wardiau neilltuol, ehangu'r tîm i gynnwys mwy o weithwyr cymdeithasol a nyrs i gefnogi addysg a datblygiad.

52 Gofynnwyd i dimau cyswllt rhyddhau ddisgrifio pa mor aml yr oeddent yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau. Yn Atodiad 4 gwelir crynodeb o'r mathau o weithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. O fewn y Bwrdd Iechyd, mae'r GRhI bob tro yn dilysu data OwDG ac yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol er mwyn rhyddhau cleifion mewn modd amserol. Bydd y tîm yn aml yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol, ac mae hyn yn cyd-fynd yn fras â thimau cyswllt rhyddhau eraill:

- cymryd rhan mewn rhawdiau ward ac/neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth;
- cynorthwyo staff i adnabod cleifion bregus a allai wynebu oedi wrth gael eu rhyddhau;
- sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol wedi'u sefydlu igleifion ag anghenion cymhleth wrth eu rhyddhau;
- cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau'n llwyddiannus o'r ysbyty, a lleihau'r achosion o ail-dderbyn hyd yr eithaf;
- cynnig un man cyswllt i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y broses o gynllunio i ryddhau; a
- rhoi cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd.

53 Fodd bynnag, anaml y bydd y GRhI yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae hyn yn wahanol i'r 87% o dimau cyswllt rhyddhau eraill sydd yn rhoi'r wybodaeth honno'n aml neu bob amser. Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd Iechyd system ar waith i olrhain llif cleifion (gweler paragraff 77), felly does dim angen i'r GRhI wneud hynny. Dywedodd 60% o'r timau cyswllt rhyddhau eu bod yn cyfeirio cleifion a'u teuluoedd dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref. Mae'r GRhI yn gwneud hyn weithiau. Ac mae ychydig llai na hanner (47%) o'r timau cyswllt rhyddhau yn cydweithio â rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty, tra bod y GRhI weithiau'n gwneud hynny.

Codwyd pryderon ynghylch lleoliad ac amgylchedd y lolfeydd rhyddhau, ond mae gwella'r lolfeydd, nad ydynt ond ar agor o ddydd Llun i dydd Gwener yn unig, yn rhan o gynllun gwella'r Bwrdd Iechyd.

54 Gall lolfa ryddhau hefyd gefnogi cynlluniau rhyddhau cleifion a llif cleifion effeithiol drwy gynnig amgylchedd addas lle gall cleifion ddisgwyl i berthnasau, neu drafnidiaeth yr ysbyty, eu codi. Bydd hynny'n golygu bod gwelyau'n cael eu rhyddhau'n brydlon i dderbyn cleifion eraill. Bydd rhai cleifion hefyd yn cael eu hanfon i'r lolfa wrth ddisgwyl i'r fferyllfa ddosbarthu eu meddyginiaeth.

55 Holwyd sefydliadau'r GIG ynghylch eu cyfleusterau o ran lolfeydd rhyddhau. Ar draws Cymru, gwelsom fod pob bwrdd iechyd, ar wahân i Bowys, yn gweithredu lolfeydd rhyddhau yn eu hysbytai acíwt. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd gan y lolfeydd rhyddhau y capasiti i gefnogi 192 o gleifion oedd yn disgwyl cael eu rhyddhau; capasiti cyfartalog pob lolfa oedd 11. Ar draws Cymru, mae lolfeydd rhyddhau ar agor am 8 i 12 awr o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac mae nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio ynddynt fel arfer. Ceir hefyd gyfleusterau bwyd a thoiledau i'r cleifion.


56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal lolfeydd rhyddhau yn Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC) ac yn Ysbyty Athrofaol Llandochau (YALl) o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae gan y ddwy lolfa gapasiti ar gyfer 15 o gleifion, ac maent ar agor rhwng 7am a 7.30pm yn YAC a rhwng 8.30am a 5.30pm yn YALl. Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, cafodd 5,337 o gleifion eu rheoli drwy'r lolfa ryddhau yn YAC. Ni wyddys beth yw'r ffigur ar gyfer YALl.

57 Gofynnwyd hefyd am wybodaeth ynghylch trefniadau staffio, costau a gweithgarwch y lolfeydd rhyddhau. Roedd yr wybodaeth hon yn fwy cyflawn. Mae nifer y staff a ddefnyddir ar draws lolfeydd rhyddhau ysbytai yn amrywio rhwng llai nag un aelod staff CALl a phum aelod staff CALl; y cyfartaledd oedd tri aelod staff CALl. Cyfanswm cost 12 o'r 14 o lolfeydd rhyddhau oedd £1 miliwn, ac roedd costau gwasanaethau unigol yn amrywio rhwng £25,000 a £139,000. £86,000 oedd y gost gyfartalog fesul lolfa ryddhau. Buom yn archwilio'r gost fesul achos o ryddhau a gefnogir drwy'r lolfa ryddhau. Yng Nghaerdydd a'r Fro, roedd gwasanaeth y lolfa ryddhau yn costio £171,500. Y gost fesul achos o ryddhau yn Ysbyty Athrofaol Cymru oedd £23 o gymharu â chyfartaledd y lolfa ryddhau o £28 (Dangosyn 6).

58 Unwaith eto, buom yn cymharu nifer y cleifion a gafodd eu rhyddhau, ac a gefnogwyd drwy'r lolfeydd rhyddhau, â nifer yr aelodau staff CALl. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan wyth o'r 14 o lolfeydd rhyddhau, roedd nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff CALl yn amrywio rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, o ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALl hyd at ychydig dros 2000 fesul aelod staff CALl. Yn Ysbyty Athrofaol Cymru, cafodd 1,067 o gleifion eu rhyddhau fesul aelod staff CALl. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y lolfeydd rhyddhau (1,000 o gleifion wedi'u rhyddhau fesul CALl) (Dangosyn 7).

Dangosyn 6: cymhariaeth o'r gost am bob claf a ryddhawyd ac a reolwyd gan lolfeydd rhyddhau unigol rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016

Dengys y siart fod y gost am bob claf a ryddhawyd, ac a reolwyd drwy'r lolfa ryddhau, yn amrywio rhwng £12 a £74 fesul achos o ryddhau.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017[16]

[16] Cawsom wybodaeth oddi wrth 14 o lolfeydd rhyddhau, ond dim ond 8 ffurflen a ddychwelwyd oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i gymharu'r gost fesul claf a ryddhawyd o'r lolfa ryddhau.

Dangosyn 7: nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALl), ac a gefnogwyd drwy lolfeydd rhyddhau ysbytai rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016

Mae'r siart yn dangos bod nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn yn amrywio ar draws lolfeydd rhyddhau ysbytai, o ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALl hyd at ychydig dros 2000 fesul aelod staff CALl.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017 (Gweler Troednodyn 16)

59 Yn rhan o'r adolygiad hwn, buom yn cyfarfod â chynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC), a fynegodd bryderon ynghylch y ffaith nad oedd lolfeydd rhyddhau yn groesawgar, nad oeddent wedi'u lleoli mewn mannau amlwg a phrinder pethau i'w gwneud wrth ddisgwyl am drafnidiaeth. Fodd bynnag, mae adolygu'r lolfeydd rhyddhau yn y naill ysbyty a'r llall wedi'u cynnwys fel un o'r camau gweithredu yn y Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu. Nid yw'n glir a oes cyfres o safonau yn bodoli ar gyfer y lolfeydd rhyddhau, ond mae'r polisi rhyddhau drafft yn cyfeirio at y posibilrwydd o atodi'r meini prawf a osodwyd ar gyfer derbyn cleifion i'r lolfeydd.

## Ceir lle i wella hyfforddiant staff a chodi ymwybyddiaeth o bolisïau, llwybrau a mynediad at wybodaeth am wasanaethau cymunedol

60 At ei gilydd, tîm y ward sy'n gyfrifol am asesu cleifion a chynllunio i'w rhyddhau. Dylai staff y ward gymryd rhan yn y broses cynllunio i ryddhau a'i hystyried yn rhan o'r continwwm gofal, a dylid dwyn staff ward a rheolwyr gweithredol i gyfrif am gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. I ategu hyn dylid sicrhau ymwybyddiaeth glir o bolisïau a llwybrau, mynediad at

lefelau hyfforddi priodol, ac ymwybyddiaeth dda o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi prosesau rhyddhau.

Mae'r hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau yn anghyson, a gall diffyg capasiti ymhlith staff ward atal staff rhag ei fynychu. Mae ymwybyddiaeth staff o bolisïau a llwybrau rhyddhau hefyd yn wael.

61 Yn rhan o'n gwaith archwilio, cyfarfuom â grŵp cymysg o staff ward[17] i drafod ystod o faterion yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion. Roedd y staff y cyfarfuom â hwy yn deall yn glir beth oedd eu rôl o ran cynllunio i ryddhau cleifion; fodd bynnag, nid oeddent yn ymwybodol o'r polisi rhyddhau nac o unrhyw weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion. Roedd pob aelod o staff yn gweithio'n unol â safonau proffesiynol, ond nid yw'r gwahanol safonau proffesiynol wedi'u hintegreiddio. Er ein bod yn derbyn bod y polisi rhyddhau yn destun adolygiad ar hyn o bryd, dylai'r staff fod yn ymwybodol o'r polisi a gweithio'n unol ag ef. Byddem hefyd yn disgwyl i staff ward wybod bod y polisi'n cael ei adolygu. Nid oedd y staff ward y cyfarfuom â hwy ychwaith yn ymwybodol o unrhyw lwybrau rhyddhau ysgrifenedig, ond roeddent yn tybio bod y llwybrau hynny'n bodoli. Roedd staff y GRhI yn ymwybodol o'r llwybrau gan fod y tîm yn arbenigo mewn rhyddhau cleifion.

62 Dylai staff rheng flaen dderbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n briodol i'w rôl yn y broses ryddhau. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn rhan o raglenni ymsefydlu, ac o ddiweddariadau rheolaidd ar bynciau penodol, yn enwedig pan fydd polisïau cysylltiedig yn ddibynnol ar asesu a chynllunio gofal. Yn ddelfrydol, darperir hyfforddiant ar sail aml-asiantaeth ac/neu ar sail aml-broffesiwn er mwyn sicrhau bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fusnes i bawb.

63 Yn Nangosyn 8 gwelir mai ond hanner sefydliadau'r GIG ledled Cymru sy'n cynnwys cynlluniau rhyddhau mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys, ac sydd yn cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd. O fewn y Bwrdd Iechyd, dywedodd staff ward wrthym fod yr hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn anghyson. Gwelsom nad oedd rhaglenni ymsefydlu ar gyfer staff nyrsio a meddygol yn cynnwys hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion, ond bod y rhaglenni ymsefydlu ar gyfer therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion yn cynnwys yr hyfforddiant hwnnw.

[17] Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys uwch nyrs, prif nyrs ward, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol, gweithiwr cymdeithasol, rheolwr gwasanaeth rhyddhau integredig, swyddog cefnog rhyddhau a meddyg ymgynghorol.

Dangosyn 8: argaeledd hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ar gyfer staff nyrsio

Dengys y tabl pa sefydliadau yn y GIG sydd yn darparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu nyrsys, ac a ddarperir hyfforddiant gloywi rheolaidd i'r staff nyrsio.

| Sefydliad y GIG | Hyfforddiant ar gynllunio i gynnwys cleifion mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys ar gyfer dechreuwyr newydd | Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu'n rheolaidd i nyrsys[1] |
|---|---:|---:|
| Abertawe Bro Morgannwg | Nac ydy | Ydy |
| Aneurin Bevan | Nac ydy | Nac ydy |
| Betsi Cadwaladr | | |
| • Ysbyty Gwynedd | Ydy | Ydy |
| • Wrecsam Maelor | Ydy | Ydy |
| • Glan Clwyd | Ydy | Nac ydy |
| **Caerdydd a'r Fro** | **Nac ydy** | **Ydy** |
| Cwm Taf | Nac ydy | Ydy |
| Hywel Dda (timau sirol) | | |
| • Sir Benfro | Ydy | Nac ydy |
| • Ceredigion | Nac ydy | Nac ydy |
| • Sir Gaerfyrddin | Nac ydy | Nac ydy |
| Powys | Nac ydy | Nac ydy |
| Felindre | Ydy | Ydy |
| [1]Hyfforddiant gloywi wedi'i ddarparu o leiaf bob blwyddyn, neu ddwywaith y flwyddyn i'r staff nyrsio | | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 9)

64 Teimlai staff ward y buom yn cyfweld â hwy y dylai hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion fod yn orfodol. Amlygodd staff fod prinder amser a chapasiti ar wardiau yn atal staff rhag derbyn hyfforddiant. Rhan o rôl y GRhI hefyd yw cynnig hyfforddiant a chyngor, ond gan fod y tîm yn ysgwyddo mwy o achosion rhyddhau (syml a chymhleth), mae ganddynt lai o amser i gyflawni'r rôl hon. Awgrymodd staff y dylid darparu hyfforddiant drwy gwrs e-ddysgu, gan fod llawer o'r hyfforddiant o fewn y Bwrdd Iechyd eisoes yn cael ei ddarparu drwy'r dull hwn. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion, ond byddai datblygu cwrs e-ddysgu yn rhwyddhau'r gwaith monitro hwnnw.

65 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y diffyg hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion, ac wedi cynnwys camau gweithredu ar gyfer hyfforddi staff yn y Cynllun Adref yn Gyntaf a'r Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu. Mae'r Cynllun Adref yn Gyntaf yn cynnwys cam gweithredu i 'sefydlu rhaglen hyfforddi ar gynllunio i ryddhau cleifion i'r holl bartneriaid ar draws y

sefydliadau'. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi nyrs i gefnogi a datblygu rhaglen addysg a hyfforddiant. Yn niweddariad mis Chwefror 2017 ar y Cynllun Adref yn Gyntaf, nodir bod sesiwn gyngor a gwybodaeth wythnosol yn cael ei chynnal yn YAC ac YALl, ond bod presenoldeb y staff yn anghyson.

Ceir mwy o ffocws ar gynllunio i ryddhau cleifion ac mae rhai newidiadau cadarnhaol wedi'u cyflwyno. Serch hynny, mae llawer o waith i'w wneud nes bod prosesau'n effeithlon, fel bod modd rhyddhau cleifion yn brydlon, fel bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ac fel bod staff ward yn gwbl hyderus wrth ymdrin ag achosion rhyddhau mwy cymhleth

66 Yn ei adolygiad, gwelodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant ledled Cymru lle'r oedd pobl yn gyndyn o gymryd risg, lle'r oedd y staff yn siarad yn agored am ddiwylliant 'cwtsh'[18] a'r ffaith nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i reoli'r broses ryddhau. Esboniodd rhai aelodau staff nyrsio yn y Bwrdd Iechyd nad ydynt yn teimlo'n hyderus wrth ymdrin ag achosion rhyddhau cymhleth, a hynny am eu bod gan amlaf yn rheoli achosion rhyddhau syml ac arferol. Mae hyn yn gyson â safbwyntiau'r GRhI sydd yn teimlo bod staff ward yn colli eu sgiliau ac yn llai hyderus wrth reoli'r broses o ryddhau cleifion. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gellid rhyddhau rhai cleifion ynghynt ond bod yr amharodrwydd i beidio â chymryd risg o fewn y sefydliad yn atal hynny.

67 Cyfeiriodd y staff hefyd at nifer o ffactorau oedd yn atal cleifion rhag cael eu rhyddhau'n brydlon. Roedd y rhwystrau naill ai'n gysylltiedig â phrosesau neu ymddygiad. Dyma rai o'r rhwystrau a oedd yn gysylltiedig â phroses:

- prinder cyfarpar yn y gyd-storfa gyfarpar;
- bod ffurflenni atgyfeirio i therapyddion galwedigaethol yn cael eu hanfon drwy ffacs yn hytrach na thrwy e-bost;
- therapyddion galwedigaethol yn derbyn atgyfeiradau i asesu yn hwyr, weithiau ar y diwrnod rhyddhau;
- ymweliadau munud olaf gan feddygon ymgynghorol sy'n codi materion sydd eisoes wedi'u hystyried a'u datrys; ac
- asesiadau meddygol hwyr, sy'n effeithio ar y gallu i ryddhau gwelyau.

68 Gall materion gweithdrefnol fod yn gymharol hawdd eu datrys, ond gall gymryd mwy o amser i newid canfyddiadau neu ffyrdd o ymddwyn. Soniodd staff ward am deuluoedd nad ydynt yn parchu dewis y claf. Er enghraifft, os yw claf yn dymuno mynd adref, a'i fod yn gallu gwneud hynny gyda rhywfaint o gefnogaeth, mae'n bosibl y bydd aelodau teulu yn dal i fynnu lleoliad mewn cartref nyrsio neu gartref gofal. Tybiwyd bod hyn yn digwydd pan fyddai meddyg yn sôn am dderbyn y claf i ofal preswyl neu gartref gofal fel opsiwn. Yn yr achosion hyn, dywedwyd wrthym y byddai gweithiwr cymdeithasol yn treulio llawer o amser gyda'r teulu er mwyn trafod yr opsiynau cymorth eraill a fyddai'n helpu'r claf i ddychwelyd adref.

[18] Disgrifiodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant cwtsh lle'r oedd rhai aelodau staff yn amharod i ryddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain, oherwydd eu bod yn tybio y gallai hynny achosi risg i'r cleifion. Er mai caredigrwydd sydd wrth wraidd hyn, mae'n bosib nad yw'r staff yn gweithredu er budd pennaf y cleifion.

69 Canfu'r Uned Gyflawni nad oedd rhyw lawer o dystiolaeth yng nghofnodion cleifion fod staff wedi trafod disgwyliadau rhyddhau gyda'r cleifion. Mae gan y Bwrdd Iechyd daflen 'Cynllunio i Adael yr Ysbyty' (2013 oedd y flwyddyn ar y daflen y buom ni'n ei hadolygu), ond nid oedd pawb a welsom yn ymwybodol ohoni. Mynegodd y cynrychiolydd o'r CIC bryder mai ychydig o wybodaeth y bydd cleifion a'u teuluoedd yn ei derbyn am y broses o'u rhyddhau, ac nid yw gwybodaeth am ryddhau cleifion wedi'i harddangos yn y wardiau. Dyma'r materion a amlygwyd:

- nid yw'r amcanion o'r dyddiadau rhyddhau bob amser wedi'u pennu neu'n weladwy ar fwrdd gwyn y ward;
- ni ddywedir wrth gleifion a'u teuluoedd pryd y gallant ddisgwyl cael eu rhyddhau;
- nid yw'r cyfrifoldeb dros drefnu trafnidiaeth wedi'i gyfleu'n glir bob amser; a
- gwrthdaro rhwng safbwyntiau gwahanol dimau meddygol ynghylch a yw claf yn barod i'w ryddhau.

70 I gydnabod y materion hyn, ceir pwyslais cryf yn y polisi rhyddhau drafft ar gyfathrebu a chynnwys y claf/gofalwr, ac adroddodd y Bwrdd Iechyd fod y daflen rhyddhau cleifion yn cael ei diweddaru.

71 Yn dilyn adolygiad yr Uned Gyflawni, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd gyfres o weithdai staff i roi adborth ar y canfyddiadau a thrafod y dull gorau o ymateb iddynt. Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod presenoldeb da yn y gweithdai. Yr oedd consensws ymhlith y staff ar lefel strategol a gweithredol fod cynllunio i ryddhau wedi cael mwy o sylw'n ddiweddar, a bod nifer o newidiadau wedi'u gweithredu. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys:

- penodi staff i gefnogi llif cleifion, gyda chydgysylltwyr llif cleifion bellach wedi'u sefydlu ym maes llawfeddygaeth gyffredinol;
- cyfathrebu'n well ynghylch ffactorau sy'n cyfyngu ar ryddhau, er enghraifft, mae'r Byrddau Clinigol yn gweithredu cyfundrefn o rawdiau bwrdd er mwyn canfod ffactorau sy'n cyfyngu ar y gallu i ryddhau cleifion, ac mae cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal i adolygu'r holl gleifion sydd yn feddygol iach ond sydd yn dal yn yr ysbyty;
- polisïau a gweithdrefnau diwygiedig, gan gynnwys cyflwyno llwybr rhyddhau gyda chymorth, a chynnwys rhestr wirio tocyn adref a rhyddhau o fewn y polisi rhyddhau cleifion; a
- gwella systemau casglu a monitro data drwy ddiweddaru'r orsaf waith glinigol, datblygu mesurau i fonitro cydymffurfio â pholisïau, ac mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu proses adolygu achosion er mwyn dysgu yn sgil achosion cymhleth iawn.

### Cesglir gwybodaeth am wasanaethau cymunedol i gefnogi'r broses ryddhau yn rheolaidd, ond nid yw staff ward yn gwybod sut i gyrchu'r wybodaeth honno

72 Mae cael dealltwriaeth dda o ystod a chapasiti gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn elfen bwysig wrth sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon. Dylai cyrff iechyd ddal gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael a all helpu cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gall y gwasanaethau hyn fod ar gael drwy sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Gofynnwyd i gyrff iechyd

pa fathau o wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu am wasanaethau cymunedol. Yn Nangosyn 9 gwelir mai ychydig o sefydliadau sy'n casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan sefydliadau eraill y GIG ac opsiynau tai. Mae'r nifer sy'n casglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu anghenion ac amseroedd aros cyn i wasanaethau gychwyn hefyd yn gymharol brin.

Dangosyn 9: nifer y cyrff iechyd a adroddodd eu bod yn casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol

Mae'r tabl yn dangos faint o gyrff iechyd sy'n casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol.

| | Ystod y gwasanaet-hau | Argaeledd gwasanaeth-au | Meini Prawf Cymhwy-stra | Y broses atgyfeirio | Amser aros ar gyfer asesiad anghenion | Amser aros i wasanaethau gychwyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd ei hun | 8 | 8 | 9 | 9 | 4 | 4 |
| Gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Gwasanaethau gofal cymdeithasol | 9 | 9 | 9 | 10 | 6 | 3 |
| Y Trydydd Sector | 10 | 8 | 10 | 8 | 3 | 2 |
| Opsiynau Tai | 4 | 2 | 4 | 6 | 2 | 2 |
| Y Sector Annibynnol ee, gwelyau mewn cartrefi gofal | 7 | 6 | 9 | 9 | 2 | 2 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 9)

73 O fewn y Bwrdd Iechyd, mae'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol yn casglu gwybodaeth am wasanaethau'r sector annibynnol, y sector cymunedol a'r trydydd sector bob dydd neu bob wythnos. Mae gan y Gwasanaeth Rhyddhau Integredig (GRhI) hefyd ddata ar weithgarwch gwaith cymdeithasol a darpariaeth tai[19], ond nid oes trefniadau ffurfiol i gasglu data ar opsiynau tai. Er bod y Bwrdd Iechyd yn casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG, nid oedd yn sicr pa mor aml y byddai hynny'n digwydd.

[19] Mae Swyddogion Cymorth Tai yn rhan o'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig felly mae ganddynt fynediad at ddata ar ddarpariaeth tai.

74 Gofynnwyd i staff ward faint yr oeddent yn ei wybod am yr ystod o wasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion wrth eu rhyddhau. Nid oedd staff y Bwrdd Iechyd yn siŵr sut i gyrchu gwybodaeth gyfredol am wasanaethau cymunedol, er enghraifft drwy gyfeiriadur gwasanaethau cymunedol. Cyfeiriodd rhai ohonynt at wefan 'Dewis Cymru'[20] ond nid yw'r wefan ond yn ei fabandod ar hyn o bryd. Teimlai staff nyrsio'n hyderus eu bod yn gallu cael gwybodaeth gan staff therapi a'r GRhI os oedd angen, gan fod gan y naill a'r llall wybodaeth gyfredol am wasanaethau cymunedol. Fodd bynnag, nid yw'n rhwydd cael gafael ar staff therapi ar yr holl wardiau bob amser, ac mae capasiti'r GRhI yn brin.

75 Dylai staff ward wybod sut i gyrchu gwybodaeth gyfredol am wasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion wrth eu rhyddhau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi hyn, ac mae'r Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu yn mynd i'r afael â'r mater. Mae'r cynllun yn disgrifio'r camau i fapio'r ystod o wasanaethau sydd ar gael a gwella gwybodaeth y staff am adnoddau cymunedol.

# Rhan 3: at ei gilydd, mae’r perfformiad yn gwella; mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau craffu cryf ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i gipio gwybodaeth fwy ystyrlon

## Ceir llinellau atebolrwydd clir a threfniadau rheolaidd i graffu'n weithredol ar berfformiad cynlluniau rhyddhau, sy'n cynnwys partneriaid

76 Er mwyn i'r trefniadau fod yn effeithiol, mae angen cael llinellau atebolrwydd clir, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ffocws parhaus i wella prosesau rhyddhau a chynnal llif cleifion drwy ysbytai.

77 O fewn y Bwrdd Iechyd, nodir cyfrifoldebau gweithredol dros gynllunio i ryddhau cleifion yn nrafft y polisi rhyddhau. Yr wyth Bwrdd Clinigol sydd yn atebol am gynllunio i ryddhau cleifion o ddydd i ddydd. Bydd cyfarfodydd i adolygu eu perfformiad yn cael eu cynnal bob chwarter gyda swyddogion gweithredol y Bwrdd Iechyd. Bydd yr holl Fyrddau Clinigol yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Prif Swyddog Gweithredu.

78 Yn 2016, penodwyd Pennaeth Gofal Integredig ar y cyd gan gynghorau Caerdydd a'r Fro a'r Bwrdd Iechyd (Hydref 2016). Mae'r Pennaeth yn adrodd wrth y Cyfarwyddwyr perthnasol ym mhob un o'r sefydliadau, gan alluogi goruchwyliaeth strategol ar draws y rhanbarth. Nod y rôl yw gwella llif cleifion a lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal, ac arwain y Cynllun Adref yn Gyntaf.

[20] Gwefan yw Dewis Cymru a ddatblygwyd er mwyn helpu pobl i gael hyd i wybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau a all eu helpu i gymryd rheolaeth dros eu llesiant eu hunain.

79 Wrth gynnal yr adolygiad hwn, roedd strwythur llywodraethu'r Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu yn cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, cefnogir y rhaglen gan weithgor wythnosol sydd wedi'i leoli yn yr ysbyty, a oedd ar adeg ein hadolygiad yn cael ei gadeirio gan yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu, ac yn cynnwys penaethiaid gwasanaeth perthnasol, cyfarwyddwyr nyrsio a phenaethiaid gwasanaeth gweithredol awdurdodau lleol Caerdydd a'r Fro. Mae'r grŵp hwn yn adolygu perfformiad ond hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu mewn ymateb i adolygiadau allanol blaenorol, gan gynnwys adolygiadau'r Uned Gyflawni. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Prif Swyddog Gweithredu a'r Arweinydd Gweithredol Gofal Heb ei Drefnu ar y pryd yn derbyn diweddariadau dyddiol ar fesurau'n gysylltiedig â statws yr ysbytai o ran capasiti.

80 Yn dilyn pryderon blaenorol yr Uned Gyflawni ynghylch y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei gapasiti gwelyau, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gyfarfodydd safle. Mae'r rhain wedi bod yn cael eu cynnal ers 18 mis bellach, ac yn cynnwys elfen gref o reoli tîm. Mae cynrychiolwyr o bob un o'r Byrddau Clinigol, WAST a rheolydd o'r uned achosion brys yn bresennol yn y cyfarfod, a arweinir gan nyrs band 7. Cynhelir y cyfarfodydd bedair gwaith y dydd (8.30am, hanner dydd, 3pm a 6pm), a ffocws y cyfarfod yw taenlen fanwl sy'n cipio'r wybodaeth ganlynol:

- y capasiti a'r galw am welyau wedi'u rhannu i wardiau meddygol, llawfeddygol ac arbenigol;
- cleifion sy'n aros am wely, yn nhrefn blaenoriaeth ar sail ystyriaeth glinigol;
- cleifion wedi'u derbyn i wardiau dros dro, a elwir yn allgleifion;
- wardiau sydd wedi cau yn sgil rheoli heintiau a gwaith adeiladu; a
- phwyntiau gweithredu ar gyfer staff a enwir a gaiff eu hadolygu yn y cyfarfod nesaf.

81 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ei fod wedi cael adborth cadarnhaol ynghylch cyfarfodydd safle oddi wrth yr Uned Gyflawni, ac mae'n rhannu ei ymagwedd â byrddau iechyd eraill.

82 Ar lefel uwch, bydd aelodau bwrdd yn derbyn adroddiad cyffredinol ar berfformiad yn rhan o'u papurau bwrdd, sy'n cynnwys rhai dangosyddion yn gysylltiedig â llif cleifion (targedau haen un yn bennaf) a diweddariadau eraill ar gais. Mae'r pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad hefyd yn gofyn am ddiweddariadau ar feysydd perfformiad neilltuol, er enghraifft, y diweddaraf am y Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu.

83 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, gofynnwyd i aelodau bwrdd ar draws y saith bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG Felindre i ba raddau yr oeddent yn cytuno â sawl datganiad ynghylch llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion. Canfu ein harolwg o aelodau bwrdd fod 6 o 9 o aelodau bwrdd (67%) a ymatebodd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn craffu'n rheolaidd ar effeithiolrwydd cynlluniau rhyddhau. Gellir cymharu hyn â 56% ar draws Cymru.

84 Mae cynlluniau rhyddhau da yn dibynnu ar allu sefydliadau partner i gydweithio, yn ogystal â her fewnol, felly dylai trefniadau i graffu ar y cyd hefyd fod wedi'u sefydlu. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn goruchwylio gwaith y bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ac un o'i flaenoriaethau yw gwella llif cleifion. Adroddir ar gyflawniad yn erbyn blaenoriaethau lleol yng nghyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yng nghyfarfodydd misol y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol Iechyd a Gofal

Cymdeithasol Integredig. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn canolbwyntio'n arbennig ar berfformiad ac yn trafod llif cleifion, OwDG, prosiectau a ariennir gan y CGI, cynllunio ar gyfer y gaeaf a nodau gwella mawr y Bwrdd Iechyd (BIG). Bydd y cyfarwyddwyr perthnasol o bob un o'r sefydliadau partner yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn. Ar ben hynny, bydd grŵp gorchwyl craffu sy'n cynnwys Cadeirydd y Bwrdd Iechyd a'r ddau arweinydd cabinet ar gyfer gwasanaethau oedolion o'r awdurdodau lleol yn cyfarfod bob chwarter i oruchwylio cynnydd yn erbyn y Cynllun Adref yn Gyntaf. Prif Swyddog Gweithredu'r Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am lif cleifion ar ran y bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, gyda chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gofal Integredig.

## At ei gilydd, mae aelodau'r Bwrdd yn gwybod mwy am berfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, ac mae camau'n cael eu cymryd i ddatblygu'r ystod o wybodaeth sydd ar gael

85 I ddibenion monitro ac adrodd, mae'n hanfodol cael yr wybodaeth gywir am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yw'r unig fesuriad cenedlaethol, ar gyfer sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol, felly ceir monitro, adrodd a chraffu rheolaidd ar y mesuriad hwnnw. Nid oes unrhyw fesurau cenedlaethol eraill yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r wybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio i ryddhau cleifion yn hygyrch.

86 Fodd bynnag, er mwyn deall oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, dylai sefydliadau'r GIG yn ôl arfer da gael cyfres o fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am brofiadau a chanlyniadau cleifion yn sgil y broses ryddhau. Gall y rhain fod yn gymysgedd o fesurau meddal a chaled.

87 Yn rhan o'n hadolygiad, buom yn edrych ar y math o wybodaeth am berfformiad a adroddir wrth grwpiau gweithredol a'r Bwrdd neu ei is-bwyllgorau fydd o gymorth i fwrw goleuni ar berfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, a pha mor rwydd y mae cleifion yn llifo drwy'r system ysbytai. Yn Nangosyn 10 gwelir y dangosyddion perfformiad a'r diweddariadau a adroddwyd wrth y Bwrdd yn BIP Caerdydd a'r Fro:

Dangosyn 10: ystod yr wybodaeth am berfformiad a adroddwyd wrth y Bwrdd yn ystod 2016-17

Mae'r tabl yn dangos yr wybodaeth am berfformiad a oedd yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

| Cynllunio i ryddhau cleifion | Llif cleifion |
|---|---|
| • perfformiad o ran profiadau cleifion;<br>• nifer y cwynion a'r digwyddiadau, y mae rhai ohonynt yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, ynghyd â thystiolaeth o wersi a ddysgwyd a newidiadau i arfer;<br>• canran y bobl dros 65 oed sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac a atgyfeirir i gartrefi nyrsio neu gartref preswyl (cyfeiriad newydd);<br>• mesuriadau oedi wrth drosglwyddo gofal;<br>• diwrnodiau gwely a gollwyd i'r holl gleifion a oedd yn dal yn yr ysbyty ar ôl y dyddiad pan ddatganwyd eu bod yn feddygol iach i'w rhyddhau;<br>• y diweddaraf am y modd y cefnogir ac y cynhelir annibyniaeth pobl hŷn; a'r<br>• diweddaraf am y modd y mae gofal a chymorth iechyd yn cael ei ddarparu'n agos at adref. | • canran y cleifion y gohiriwyd eu triniaeth ar fwy nag un achlysur am resymau nad oeddent yn glinigol, gyda llai nag 8 diwrnod o rybudd, ac a gynhaliwyd o fewn 14 diwrnod calendr neu ar y dyddiad cynharaf a oedd yn gweddu i'r claf;<br>• canran y cleifion a arhosodd am 4 awr neu lai yn yr adran damweiniau ac achosion brys;<br>• canran y cleifion a arhosodd am lai nag awr i gael eu trosglwyddo o'r ambiwlans;<br>• canran y cleifion a arhosodd am lai na 26 wythnos am driniaeth ddewisol; ac<br>• amseroldeb atgyfeiriadau i asesu. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bapurau a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd ar Fro

88 Mewn ymateb i'n harolwg aelodau bwrdd:

- roedd 7 o 9 o aelodau bwrdd (78%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar lif cleifion, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 75%; ac
- roedd 7 o 9 o aelodau bwrdd (78%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y rhesymau dros oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai o fewn eu sefydliad, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 82%.

89 Dyma wybodaeth bellach a fyddai'n ddefnyddiol er mwyn deall perfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion yn arbennig, ond nad yw'n cael ei hadrodd gerbron y Bwrdd yng Nghaerdydd a'r Fro:

- nifer a % y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;
- aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;
- y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;
- y ganran sy'n cael eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio;
- y ganran sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a 72 awr yn dilyn datganiad eu bod yn 'feddygol iach'.

90 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa wybodaeth y gellid ei chasglu am eu systemau gweinyddu cleifion. Yn Nangosyn 11 gwelir bod gan y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y gallu i gipio ystod o ddata er mwyn helpu i gynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner ohonynt sydd yn cynnwys y gallu i gofnodi a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

Dangosyn 11: meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sefydliadau'r GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau

Mae'r tabl yn dangos mai amrywiaeth gyfyng o ddata y gellir ei chofnodi ar y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau i gefnogi gwaith monitro gweithredol. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner y systemau a all gasglu gwybodaeth ynghylch a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

| Meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sydd yn gysylltiedig â'r broses ryddhau | Nifer sefydliadau'r GIG sy'n ymateb yn gadarnhaol |
|---|---:|
| Dyddiad rhyddhau disgwyliedig | 12 |
| Dyddiad rhyddhau o'r ysbyty | 12 |
| Amser rhyddhau o'r ysbyty | 12 |
| Cyrchfan ar ôl rhyddhau ee, cartref yr unigolyn, cartref gofal preswyl, trosglwyddo i ysbyty arall ac ati | 12 |
| Dyddiad datgan bod y claf yn feddygol iach i'w ryddhau | 8 |
| A yw'r achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth | 5 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 9)

91 Gall gorsaf waith glinigol y Bwrdd Iechyd gofnodi'r holl ddata a gyflwynir yn Nangosyn 11. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei orsaf waith glinigol drwy wneud defnydd gwell ohoni i fonitro cleifion sy'n cael eu rhyddhau (ar draws amryw o asiantaethau) a diweddariadau i systemau. Un o'r gwelliannau yw cofnodi'r rhesymau dros ymestyn hyd arhosiad a thros oedi wrth ryddhau. Mae algorithm wedi cael ei ddatblygu, sy'n amcangyfrif hyd arhosiad y claf a'i ddyddiad rhyddhau yn seiliedig ar y cyflwr clinigol a fewnbynnir i'r system. Os bydd y staff yn newid yr amcan o'r dyddiad rhyddhau, neu os yw claf sy'n feddygol iach yn dal i feddiannu gwely, mae'r system yn gorfodi'r staff i gofnodi rheswm am hynny. Mae'r uned strôc yn cynnal peilot o ddiweddariad y system. Os bydd yn cael ei roi ar waith yn yr holl wardiau, bydd gan y Bwrdd Iechyd dystiolaeth gref o'r problemau sy'n achosi oedi.

92 Er adolygiad yr Uned Gyflawni, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu proses adolygu achosion er mwyn dysgu yn sgil achosion cymhleth iawn. Bob wythnos, bydd achos y claf yn cael ei adolygu yn erbyn canllawiau 'Passing the Baton'. Mae'r ffurflen adolygu achos yn cynnwys adran a gyfer stori'r claf, a'r nifer o ddiwrnodiau gwely y gellid bod wedi'u harbed. Ym mhob cam o'r broses ryddhau, mae'r ffurflen yn gofyn i adolygwyr:

- Beth ddigwyddodd?
- Beth oedd yr effaith ar y claf/teulu?
- Sut y gellid bod wedi gwneud gwahaniaeth?

## Mae'r perfformiad yn gwella, ond mae'n rhy fuan i ddweud a yw hyn yn gysylltiedig â gwelliannau i'r prosesau ryddhau

93 Cynhaliodd yr Uned Gyflawni ei hadolygiad o waith cynllunio i ryddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2016. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynlluniau cadarn ac wedi cyflwyno amryw o welliannau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn ddyddiau cynnar o ran y Cynllun Gwella Gofal Heb ei Drefnu a'r newidiadau a weithredwyd yn ddiweddar (gweler paragraff 68) felly mae'n rhy fuan i farnu ynghylch yr effaith gyffredinol ar gynllunio i ryddhau cleifion.


94 Serch hynny, gwelir arwyddion o welliant mewn rhai dangosyddion perfformiad. Yn Nangosyn 12 gwelir bod nifer yr achosion o OwDG a adroddwyd bob mis rhwng mis Ebrill 2015 (blwyddyn cyn i'r Uned Gyflawni gynnal adolygiad o gynllunio i ryddhau cleifion) a mis Ebrill 2017 (flwyddyn yn ddiweddarach) yn tueddu i ostwng ar y cyfan, gyda mân amrywiadau y gellid eu priodoli i bwysau tymhorol. Yn sgil y nifer fawr o achosion o OwDG ym mis Chwefror 2015 (155 o achosion o OwDG), sbardunwyd y partneriaid i weithredu a datblygu cynllun gweithredu OwDG (gweler paragraff 15).

95 Rhesymau gofal iechyd sydd wrth wraidd y gyfran fwyaf o achosion o OwDG, ac mae cyfran yr achosion o oedi a briodolir i'r rhesymau hynny wedi aros yn gyson i raddau helaeth, sef 38% yn 2015-16 ac yn 2016-17. Fodd bynnag, cododd cyfran yr achosion o oedi a briodolwyd i resymau'n gysylltiedig â dewis cartref gofal neu ddisgwyl am leoliad mewn cartref gofal o 23%yn 2015-16 i 28% yn 2016-17. O safbwynt cadarnhaol, cafwyd 10% o ostyngiad dros yr un cyfnod yng nghyfran yr achosion o oedi a briodolwyd i resymau'n gysylltiedig a gofal yn y gymuned, o 27% yn 2015-16 i 17% yn 2016-17.

96 Er bod cyfanswm yr achosion o OwDG (ac eithrio'r rhai sydd mewn cyfleusterau iechyd meddwl) wedi gostwng 35% o 923 yn 2015-16 i 604 yn 2016-17, mae nifer y cleifion sy'n wynebu 13 neu fwy o wythnosau o oedi ar gynnydd (Dangosyn 13).

### Dangosyn 12: tueddiadau oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2017

Dengys y siart fod achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn tueddu i ostwng ar y cyfan ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, er i'r achosion hynny gynyddu rhyw fymryn dros y ddau fis diwethaf.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru, Mai 2017

Dangosyn 13: newid yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) yn ôl hyd yr oedi rhwng 2015-16 a 2016-17

Mae'r tabl yn dangos bod nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG) wedi tueddu i ostwng ar y cyfan yn ôl hyd yr arhosiad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ond bod cyfran y cleifion sy'n wynebu mwy na thair wythnos o oedi ar gynnydd.


| Hyd yr oedi | Canran (%) yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG) | |
|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 |
| 0-3 wythnos | 35% | 25% |
| 4-6 wythnos | 25% | 19% |
| 7-12 wythnos | 26% | 28% |
| 13-26 wythnos | 11% | 22% |
| 26+ wythnos | 2% | 6% |
| Cyfanswm OwDG | 923 | 604 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru, Mai 2017

97 Dros yr un cyfnod, gwelir yn Nangosyn 14 fod cyfran y cleifion sy'n disgwyl dros 12 awr yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi gostwng a bod nifer yr achosion o fynd heibio'r trothwy yn isel. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn well na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd yng nghanran yr achosion a aeth heibio'r trothwy 12 awr dros fisoedd y gaeaf, gan adlewyrchu'r duedd yng Nghymru.

Dangosyn 14: cyfran o gleifion y Bwrdd Iechyd oedd yn gorfod disgwyl dros 12 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys o gymharu â chyfartaledd Cymru rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017

Mae'r siart yn dangos bod cyfran y cleifion sy'n aros 12 awr neu fwy yn adran damweiniau ac achosion brys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gostwng. Er bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn well na chyfartaledd Cymru, cafwyd cynnydd cyffredinol yng nghanran yr achosion a aeth heibio'r trothwy 12 awr dros fisoedd y gaeaf, gan adlewyrchu'r duedd yng Nghymru.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Amser a Dreulir mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: Gwybodaeth Reoli Fisol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017


98 Disgwylir i gyrff y GIG leihau hyd arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys. Mesurir perfformiad ar sail cyfnod treigl o 12 mis (mae'r perfformiad a adroddir yn unrhyw fis felly'n cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, y hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw) Yn Nangosyn 15 ychydig o newid a welir o ran cyfartaledd treigl hyd yr arosiadau ar gyfer[21]

[21] Mae'r perfformiad a adroddir ar gyfer unrhyw fis unigol yn cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, yn hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw.

derbyniadau meddygol brys dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae hyd cyfartalog yr arosiadau'n dechrau codi'n uwch na chyfartaledd Cymru.

Dangosyn 15: tueddiadau'r hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) ar sail cyfnod treigl o 12 mis ar gyfer derbyniadau brys ar gyfer wardiau meddygol cyfun rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017

Mae'r siartiau'n dangos ychydig o amrywio yn hyd arosiadau cyfartalog treigl derbyniadau meddygol brys dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a bod hyd cyfartalog yr arosiadau yn dechrau codi'n uwch na chyfartaledd Cymru.




Sylwer nad yw echel Y yn dechrau ar sero.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata effeithlonrwydd GIG Cymru gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

# Atodiad 1

## Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd.

Dangosyn 16: statws CAG[22] asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton[23]

Mae'r tabl yn dangos bod perfformiad yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion yn amrywio ac yn wael gan amlaf o'i asesu yn erbyn arferion disgwyliedig.

| Proses ryddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Athrofaol Cymru | Ysbyty Athrofaol Llandochau |
|---|---|---|---|
| **Cam 1** Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion | Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty. | | |
| | Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol. | | |
| | Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned. | | |
| | Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau. | | |
| **Cam 2** Achosion rhyddhau cymhleth | Cynhelir sgyrsiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol. | | |
| | Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol. | | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebir i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal. | | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr. | | |

[22] Mae'r system goleuadau traffig CAG (coch, ambr, gwyrdd) yn darparu cod lliw syml i ddangos lle mae perfformiad yn is na'r optimwm; er enghraifft, byddai gwyrdd yn dangos bod y gweithgareddau a aseswyd yn cael eu cyflawni ym mhob achos.

[23] Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, **Passing the Baton**, 2008

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Athrofaol Cymru | Ysbyty Athrofaol Llandochau |
|---|---|---|---|
| **Cam 3** Bob tro wrth ryddhau | Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh). | | |
| | Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau acíwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol. | | |
| **Cam 4** Bob tro wrth ryddhau | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | | |
| | Gellir addasu'r ADRh yn unol ag ymateb yr unigolyn i driniaeth, er mwyn pennu dyddiad rhyddhau realistig. | Ceir tystiolaeth bod hyn yn digwydd ond dim ond yn 22% i 24% o'r nodiadau achos a adolygwyd y gwelwyd tystiolaeth bod ADRh wedi'i gofnodi. | |
| | Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd. | | |
| | Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch | | |
| | Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau. | | |
| Achosion rhyddhau cymhleth | Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf. | | |
| | Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo i asesu' ym mhob achos rhyddhau cymhleth. | | |
| | Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth. | | |
| | Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo. | | |
| | Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol. | | |
| | Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra CIC). | | |
| | Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano'. | | Ddim yn berthnasol, gan nad oedd angen lleoliad newydd mewn cartref gofal ar gyfer unrhyw un o'r achosion. |
| | Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal. | | |
| | Gwybodaeth am y Polisi Dewis | | |
| | Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector) | | |
| **Cam 5** Bob tro wrth ryddhau | Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried. | | |

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Chwefror 2016

# Atodiad 2

## Dull archwilio

Cynhaliwyd ein hadolygiad o gynlluniau rhyddhau cleifion ledled Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Nodir manylion ein dull o archwilio isod.

### Dangosyn 17: methodoleg archwilio

Mae'r tabl yn dangos ystod y gweithgareddau a gyflawnwyd yn rhan o'r broses archwilio.

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Ffurflen Casglu Data – Cynllunio i Ryddhau Cleifion (gwybodaeth ar lefel y Bwrdd Iechyd/yr Ymddiriedolaeth) | Ceisiwyd gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ynghylch y graddau y rhennir blaenoriaethau wrth ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal; y gwasanaethau neu'r timau sydd ar gael i gefnogi rhyddhau cleifion yn brydlon; tirlun gwasanaethau cymunedol; hyfforddiant i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion; rheoli perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion; a'r graddau y rhennir gwybodaeth am wasanaethau addasu tai â sefydliadau'r GIG. Defnyddiwyd yr wybodaeth a ddychwelwyd i gefnogi'r archwiliad cynllunio i ryddhau cleifion, ac astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o addasiadau tai.<br>Cwblhaodd a chyflwynodd y Bwrdd Iechyd y ffurflen casglu data ym mis Mawrth 2017. |
| Ffurflen Casglu Data – Lolfa Ryddhau | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG a oedd yn gweithredu gwasanaethau lolfa ryddhau i ddisgrifio pob lolfa ryddhau. Gofynnwyd am yr oriau gweithredu, y proffil staffio, nifer y cleifion yr oedd y lolfa yn ei gynnwys a'r amgylchedd i cleifion.<br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddwy ffurflen, y naill ar gyfer Ysbyty Athrofaol Cymru a'r llall ar gyfer Ysbyty Athrofaol Llandochau. |
| Ffurflen Casglu Data – Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG sôn wrthym am y tîm cyswllt rhyddhau os oedd y timau hynny i'w cael. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch oriau gweithredu, y proffil staffio, costau'r tîm/gwasanaeth a natur ei weithgarwch.<br>Lle'r oedd sawl tîm cyswllt rhyddhau yn gweithredu, byddai un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer pob prif ysbyty acíwt os oedd y timau'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Os oedd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn gweithredu fel un gwasanaeth integredig, byddai un ffurflen yn cael ei chwblhau.<br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd un ffurflen ar gyfer tîm y Gwasanaeth Rhyddhau Integredig; mae'r gwasanaeth yn ymdrin â'r holl safleoedd ysbyty. |
| Cais am ddogfennau | Buom yn adolygu dogfennau gan y Bwrdd Iechyd a drafodai strategaethau a chynlluniau ar gyfer rheoli llif cleifion a gofal heb ei drefnu, polisïau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, trosglwyddo gofal a dewis cartref, llwybrau rhyddhau, cynlluniau gweithredu i wella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ac adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys rhai yn gysylltiedig â phrofiad y claf neu wybodaeth am gwynion a digwyddiadau'n gysylltiedig â phrosesau rhyddhau. Dibynnwyd hefyd ar wybodaeth yn yr adroddiadau a luniwyd ar gyfer Llywodraeth |

| Dull | Manylion |
|---|---|
| | Cymru gan bob bwrdd iechyd neu bartneriaeth ranbarthol, a roddai grynodeb o'r defnydd a wnaed o'r Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno, yn 2015-16. |
| Cyfweliadau | Buom yn cyfweld â nifer o aelodau staff, gan gynnwys:<br>• Prif Weithredwr Dros Dro<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol y Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu<br>• Pennaeth Gofal Integredig<br>• Rheolwr Cyswllt Gofal Canolraddol<br>• Pennaeth Rheoli Mynediad (Llif Cleifion)<br>• Aelod Annibynnol o'r Bwrdd (gwasanaethau cymdeithasol)<br>• Cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymunedol<br><br>Cyfarfuom hefyd â grŵp cymysg o staff ward, roedd y grŵp yn cynnwys:<br>• Uwch Nyrs<br>• Prif Nyrs<br>• Nyrs Ward<br>• Rheolwr Cyswllt Gofal Canolraddol<br>• Gweithiwr Cymdeithasol (Cyngor Caerdydd, rhan o'r GRhI)<br>• Therapydd Galwedigaethol<br>• Ffisiotherapydd<br>• Swyddog Cymorth Rhyddhau Cleifion (Age Connects, rhan o'r GRhI)<br>• Meddyg Ymgynghorol |
| Defnydd o ddata presennol | Defnyddiwyd ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, lle'r oedd hynny'n bosibl, fel gwaith yr Uned Gyflawni o 2016 ar gynllunio i ryddhau cleifion, data o wefan StatsCymru ar gyfer nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal, gwelyau ysbyty, staff, derbyniadau, cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a hyd arosiadau. |

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

Dangosyn 18: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl yn dangos argymhellion yr adroddiad a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â'r rhain.

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoria-eth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniw-yd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1a | Datblygu system lle gall staff ward gyrchu gwybodaeth gyfredol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. | Gwybodaeth ehangach a chyfredol am wasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion wrth eu rhyddhau. | Ydy | Do | Y Gwasanaeth Rhyddhau Integredig yw'r man cyswllt cyntaf o fewn y Bwrdd Iechyd, ac mae'n darparu gwasanaeth cyfeirio i holl staff y BIP mewn perthynas ag unrhyw ymholiadau a allai fod ganddynt ynghylch gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned.<br>Mae safle mewnrwyd ar gael ar hyn o bryd, ac mae cyfarwyddiadau ynghylch sut i gyrchu'r cynnwys mewn i'w cael mewn rhaglenni hyfforddi. Mae cyfeiriad gwefan DEWIS hefyd ar gael.<br><br>Mae Man Cyswllt Cyntaf, ac Un Man Mynediad, y naill a'r llall yn brosiectau a ariennir drwy'r gronfa gofal integredig yn cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth a chyngor i gleifion, eu teuluoedd a staff yn rhan o'r gofynion cyffredinol i gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. | | Y Prif Weithredwr/<br>Pennaeth Gofal Integredig |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae Swyddogion Cymorth Rhyddhau Cleifion ychwanegol a thîm GRhI ar waith i gynnig cyngor a gweithredu fel man cyswllt.<br><br>Bwriedir cynnal adolygiad o'r wefan er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol ac yn hygyrch i holl staff y BIP.<br><br>Bydd gwaith i atgyfnerthu'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael yn parhau i gael ei gynnwys mewn rhaglenni hyfforddant parhaus. | Parhaus<br><br>Rhagfyr 2017<br><br>Parhaus | |
| A1b | Adolygu ystod a mynychder y data a gesglir am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Er enghraifft, cesglir amseroedd aros ar gyfer rhai gwasanaethau a data mynychder ar wasanaethau sydd ar gael drwy gyrff eraill y GIG ac opsiynau tai. | Mae staff ward yn fwy hyddysg ac yn gwybod o le i gael gwybodaeth am wasanaethau cymunedol. | Nac ydy | Do | Ceir gwybodaeth ynghylch sut i gyrchu gwasanaethau cymunedol ar fewnrwyd y BIP.<br>Mae'r BIP yn cymryd rhan mewn gwaith i ddatblygu system gwybodaeth Gofal Cymunedol a Chymdeithasol ar gyfer Cymru gyfan. Ar ôl iddi gael ei datblygu, bydd y system yn creu llwyfan i rannu gwybodaeth a data.<br>Bydd y staff y cael eu hatgoffa ynghylch sut y gallant gyrchu gwybodaeth gyfredol ar wefan y BIP, ac ynghylch cynnwys y wefan honno, yn ystod rhaglenni hyfforddiant. | Parhaus | Y Prif Weithredwr/<br>Pennaeth Gofal Integredig |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio cynnwys cleifion a gofalwyr y tro nesaf y bydd hi'n bryd diwygio'r polisïau. | Mae gan gleifion a gofalwyr lais wrth adolygu a datblygu polisïau sy'n golygu eu bod yn bartneriaid cyfartal yn y broses. | Ydy | Do | Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y Protocol Dewis a'r Polisi Rhyddhau Cleifion.<br><br>Mae drafft cyfredol y Protocol Dewis a'r Polisi Rhyddhau wedi cael ei ddarparu i Brosiect Ymgysylltu Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru er mwyn cael sylwadau. | Diwedd mis Hydref 2017 | Y Prif Weithredwr/ Pennaeth Gofal Integredig |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth cyn gynted ag y bydd y polisi drafft ar ryddhau cleifion wedi'i gwblhau'n derfynol er mwyn sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau cleifion yn deall sut i'w ddefnyddio. | Mae'r staff yn hyddysg, gan olygu eu bod yn cymhwyso'r polisi rhyddhau cleifion a'r llwybrau yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. | Ydy | Do | Mae cynllun hyfforddi a datblygu bellach ar waith sydd wedi'i ddatblygu'n dda.<br>**Cynllun Byrdymor**<br>**Cynllunio i Ryddhau Cleifion**<br>Sesiynau hyfforddi wythnosol 1-1½ awr yn YAC a Llandochau<br>Pynciau: Polisi Rhyddhau Polisi Dewis achosion syml/gyda chefnogaeth/cymhleth. Gwasanaeth Rhyddhau Integredig; Cartrefi Gofal; Tîm Adnoddau Cymunedol; Yr Orsaf Waith Glinigol a'r defnydd ohoni/ei phwrpas.<br>(20 sesiwn wedi'u cwblhau hyd yma<br>64 o aelodau staff yn bresennol) | Parhaus | Y Prif Weithredwr/ Pennaeth Gofal Integredig |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **'Get me Home'**<br>Mae gweithdai wedi cael eu cynnal bob tri mis sy'n canolbwyntio ar egwyddorion Adref yn Gyntaf.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cychwyn ymgyrch Dadgyflyru drwy'r holl sefydliad, sy'n anelu i gynnal annibyniaeth y claf er mwyn osgoi niwed y gellir ei osgoi, gwella profiad y claf a chyflymu'r broses o'i ryddhau (dau weithdy wedi'u cynnal a dyddiadau wedi'u cytuno ar gyfer dau weithdy arall – 120 o aelodau staff yn bresennol)<br><br>**Hyfforddiant SNAP**<br>Bob dydd am bythefnos – sesiynau 30 munud yn y ward<br>Pynciau: Polisi Rhyddhau Polisi Dewis achosion syml/gyda chefnogaeth/cymhleth; Gwasanaeth Rhyddhau Integredig; Cartrefi Gofal; Tîm Adnoddau Cymunedol; Yr Orsaf Waith Glinigol a'r defnydd ohoni/ei phwrpas; Llwybr Cyflym i'r CIC<br>(160 o sesiynau wedi'u cyflwyno hyd yma<br>280 o aelodau staff yn bresennol) | Lansio'r Ymgyrch Hydref 2017<br><br>Parhaus | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoria-eth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniw-yd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Cynllun Tymor Hwy**<br>Gwaith yn parhau gyda'r adran Dysgu a Datblygu i gynnwys Cynllunio i Ryddhau Cleifion yn rhan o raglenni hyfforddi Therapi a Nyrsio i is-raddedigion.<br>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr LED i ffurfioli'r rhaglen fisol o hyfforddiant amlddisgyblaeth.<br>Mae gwaith yn parhau i gynnwys cynllunio i ryddhau cleifion yn rhaglenni Ymsefydlu pob aelod o staff proffesiynol.<br>Mae trefniadau wedi'u sefydlu i gynnwys hyfforddiant manwl ar cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o'r cwrs sylfaen ar gyfer nyrsys newydd gymhwyso.<br>Mae gwaith cydweithredol yn parhau â Phrifysgol Caerdydd i gefnogi cynnwys cynllunio i ryddhau yn rhan o'r cwricwlwm academaidd i is-raddedigion. | Tachwedd 2017<br>Tachwedd 2017<br>Hydref2017<br>Rhagfyr 2017 | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4a | Datblygu cwrs e-ddysgu ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion a allai fod yn fwy hygyrch i staff ward. | Dull o gyflwyno hyfforddiant sydd yn gyfleus staff ward sydd yn brin o amser. | Nac ydy | Do | Mae gwaith yn parhau gyda chydweithwyr LED i ddatblygu adnodd e-ddysgu sy'n canolbwyntio ar gynllunio i ryddhau cleifion. | I'w gadarnhau | Y Prif Weithredwr/ Pennaeth Gofal Integredig |
| A4b | Sicrhau bod presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi yn cael ei nodi ar gofnod electronig y staff, fydd yn helpu i wella'r trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth. | Gwella cynllunio i ryddhau cleifion gan fod staff wedi'u hyfforddi'n dda, yn cael cyfle i fynychu cyrsiau gloywi rheolaidd, ac mae gan y Bwrdd Iechyd gofnod o gydymffurfio â gofynion hyfforddi. | Ydy | Do | Bellach gall pob aelod o staff gofrestru ei gyflawniad academaidd ei hun a'r cyrsiau y mae wedi'u mynychu ar Gofnod Electronig y Staff, ac mae'r GRhI bellach yn cadw cofnod o bawb sy'n mynychu hyfforddiant.<br>Caiff gweithdai ffurfiol hefyd eu cofnodi ar Gofnod Electronig y Staff. | Parhaus | Y Prif Weithredwr/ Pennaeth Gofal Integredig/ Byrddau Clinigol |

# Atodiad 4

## Gweithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau cleifion

Yn rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i'r byrddau iechyd pa mor aml y byddai eu timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau, o beidio byth a'u cyflawni hyd at eu cyflawni drwy'r amser. Yn Nangosyn 19 gwelir pa mor aml y cyflawnir y gweithgareddau hyn gan y 15 o dimau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru.

### Dangosyn 19: pa mor aml y bydd y timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau

Dengys y tabl hwn pa mor aml y bydd 15 o dimau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau.

| Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion | Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob amser | Yn aml | Weithiau | Yn anaml | Byth |
| Cymryd rhan mewn rhawdiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth. | 33% | 40% | 20% | 7% | 0% |
| Staff cymorth yn nodi cleifion bregus a allai wynebu oedi. | 53% | 40% | 7% | 0% | 0% |
| Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion cymhleth. | 60% | 27% | 13% | 0% | 0% |
| Cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi aildderbyniadau. | 60% | 27% | 7% | 7% | 0% |
| Creu man cyswllt canolog ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol. | 67% | 33% | 0% | 0% | 0% |

| Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion | Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob amser | Yn aml | Weithiau | Yn anaml | Byth |
| Gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai. | 27% | 20% | 40% | 7% | 7% |
| Dilysu data ar oedi cyn trosglwyddo gofal. | 87% | 7% | 0% | 0% | 7% |
| Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion mewn modd amserol. | 33% | 13% | 40% | 13% | 0% |
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion. | 67% | 20% | 0% | 7% | 7% |
| Darparu cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd. | 27% | 27% | 20% | 7% | 20% |
| Cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref. | 33% | 27% | 27% | 7% | 7% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 9)

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales